Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 2 (personau esempt) i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae Atodlen 2 i'r Rheoliadau hynny yn esemptio categorïau penodol o weithiwr rhag gorfod darparu gwybodaeth am deithiwr ac rhag gorfod ynysu. Mae rheoliad 4 yn hepgor paragraff 37 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 10 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gofynion ynysu: eithriadau). Mae rheoliad 5 yn hepgor is-baragraffau 4(jc) a 4(jd) o reoliad 10.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2021 Rhif 50 (Cy. 12)

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2021

Gwnaed *16 Ionawr 2021*

Yn dod i rym *am 4.00 a.m. ar 18 Ionawr 2021*

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru am 12.30 p.m. ar 18 Ionawr 2021

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi, dod i rym a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 18 Ionawr 2021.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol" yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(**1**).

RHAN 2

Diwygiadau i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

Hepgor gwledydd a thiriogaethau o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt

2.—(1) Mae Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle'r cofnodion yn Rhan 1 (gwledydd, tiriogaethau a rhannau o wledydd neu diriogaethau), rhodder "Nid yw unrhyw wledydd, unrhyw diriogaethau nac unrhyw rannau o wledydd neu diriogaethau wedi eu pennu yn y Rhan hon".

(3) Yn lle'r cofnodion yn Rhan 2 (tiriogaethau tramor y Deyrnas Unedig), rhodder "Nid yw unrhyw diriogaethau wedi eu pennu yn y Rhan hon".

Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 2

3.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person ("P")—

(a) yn cyrraedd Cymru am 4.00 a.m. ar 18 Ionawr 2021 neu wedi hynny, a

(b) wedi bod ddiwethaf mewn gwlad neu diriogaeth a oedd wedi ei rhestru yn Rhan 1 neu Ran 2 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn union cyn 4.00 a.m. ar 18 Ionawr 2021—

(**1**) O.S. 2020/574 (Cy. 132), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1329 (Cy. 295), O.S. 2020/1362 (Cy. 301), O.S. 2020/1477 (Cy. 316), O.S. 2020/1521 (Cy. 325), O.S. 2020/1602 (Cy. 332), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/24 (Cy. 8), O.S. 2021/46 (Cy. 10) ac O.S. 2021/48 (Cy. 11).

(i) o fewn y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, a

(ii) cyn 4.00 a.m. ar 18 Ionawr 2021.

(2) Mae P, yn rhinwedd y ffaith iddo fod mewn gwlad neu diriogaeth a oedd wedi ei rhestru yn Rhan 1 neu Ran 2 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn union cyn 4.00 a.m. ar 18 Ionawr 2021, i'w drin at ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel pe bai wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt, neu fel pe bai wedi cyrraedd ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath.

RHAN 3

Diwygiad i Ran 2 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

Diwygiad i Ran 2 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (personau esempt)

4. Yn Rhan 2 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (personau nad yw'n ofynnol iddynt gydymffurfio â rheoliad 7 nac 8), hepgorer paragraff 37.

RHAN 4

Diwygiad i Reoliad 10 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

Diwygiad i Reoliad 10 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gofynion ynysu: eithriadau)

5. Yn rheoliad 10 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gofynion ynysu: eithriadau), hepgorer is-baragraffau (4)(jc) a (4)(jd).

Vaughan Gething
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
16 Ionawr 2021

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2021.

Vaughan Gething
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

18 Ionawr 2021

1. Disgrifiad

Yn ddarostyngedig i esemptiadau penodedig, tan 10 Gorffennaf 2020, roedd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (“Y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol”) yn ei gwneud yn ofynnol i bob teithiwr sy’n cyrraedd Cymru o’r tu allan i’r Ardal Deithio Gyffredin (h.y. yr ardal ffiniau agored sy’n cynnwys y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon) ddarparu ei fanylion cyswllt a gwybodaeth am ei daith – ac ynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau. Ar 10 Rhagfyr 2020, gostyngwyd y cyfnod ynysu i 10 diwrnod.

Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 er mwyn (ymhlith pethau eraill) cyflwyno esemptiad rhag y gofyniad i ynysu ar gyfer teithwyr sy’n cyrraedd o wledydd a thiriogaethau penodedig, a elwir yn "wledydd esempt".

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i ymateb i'r risg a achosir ac anawsterau wrth asesu'r risg o fathau o amrywiolion a fewnforiwyd o SARS-COV-2 ("coronafeirws"), sy'n angenrheidiol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Yn dod i rym

Yn unol ag adrannau 4(1) ac 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd fod y Rheoliadau wedi dod i rym cyn iddynt gael eu gosod, ac nad ydynt yn cydymffurfio â’r confensiwn 21 o ddiwrnodau. Roedd hyn yn angenrheidiol oherwydd y risg a achosir mewn perthynas â coronafeirws ac yn enwedig mathau amrywiolyn o'r un peth, gan deithwyr sy'n teithio i'r DU. .

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Nid yw’r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop; mae’r Llywodraeth o’r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae’r Llywodraeth o’r farn hefyd eu bod yn gymesur.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (“Deddf 1984”), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf 1984. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

Gwnaed y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ar 5 Mehefin 2020 a daethant i rym ar 8 Mehefin 2020 mewn ymateb i’r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad syndrom anadlol acíwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae newidiadau wedi’u gwneud i’r rhestr o'r gwledydd a'r tiriogaethau esempt na fyddai'n ofynnol i deithwyr hunanynysu ar ôl cyrraedd Cymru ohonynt – yn fwyaf diweddar ar 12 Ionawr 2021.

Mae cyngor sydd bellach wedi dod i law gan y Gydganolfan Bioddiogelwch yn dangos ei bod yn anodd asesu'n llawn y risg i iechyd y cyhoedd a achosir gan nifer yr achosion o amrywiolion o coronafeirws a'u lledaenu. Ar sail y cyngor hwn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn na fyddai'n briodol ar hyn o bryd i unrhyw wlad neu diriogaeth y tu allan i'r ardal deithio gyffredin fod ar y rhestr coridorau teithio, gan eithrio teithwyr o'r gofynion ynysu a hynny yw y byddai'n ddoeth dileu rhai o'r eithriadau sectoraidd a'r eithriadau o'r gofyniad i ynysu sydd ar waith.

Daeth y gofynion diwygiedig i rym ar gyfer unrhyw deithwyr sy'n cyrraedd Cymru ar neu ar ôl 4.00am ar 18 Ionawr 2021.

Nid yw'r diwygiadau hyn i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn effeithio ar y gofynion o dan y Rheoliadau hynny ar gyfer personau sy'n dod i Gymru cyn i'r diwygiad ddod i rym.

Nid yw'r gwelliannau hyn yn newid y trefniadau presennol ar gyfer teithio o fewn yr Ardal Deithio Gyffredin (Iwerddon, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel).

Mae Gweinidogion Cymru o’r farn fod y diwygiadau yma yn gymesur â’r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

5. Ymgynghori

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy’n deillio o’r coronafeirws a’r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i’w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

Vaughan Gething AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/VG/0225/21

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

16 Ionawr 2021

Annwyl Llywydd,

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2021

Yn unol ag adrannau 4(1) ac 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu bod yr offeryn statudol hwn heb gydymffurfio a'r confensiwn 21 diwrnod a bydd yn dod i rym cyn iddo gael ei osod. Amgaeaf gopi o'r offeryn statudol a bwriadaf osod hwn a Memorandwm Esboniadol cysylltiedig ddydd Llun, 18 Ionawr 2021.

Bu'n rhaid dileu ar frys yr holl wledydd a thiriogaethau a restrwyd ar hyn o bryd yr oedd teithwyr i Gymru wedi'u heithrio o'r gofynion cwarantîn, ynghyd â nifer o eithriadau ac eithriadau sectoraidd o'r gofyniad i ynysu, fel y nodir yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020, er mwyn lleihau'r risg i iechyd y cyhoedd o fathau amrywiolion o'r coronafeirws.

Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod a dod â hwy i rym cyn iddynt gael eu gosod, yn caniatáu i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd; a pharhau â'r ymagwedd pedair gwlad tuag at deithio rhyngwladol, o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick **Antoniw AS**, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Yn gywir,

Vaughan Gething AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

SL(5)723 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2021

Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau'n diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol) a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (y Rheoliadau Cyfyngiadau).

Mae cyngor a gafwyd gan y Gydganolfan Bioddiogelwch yn dangos bod y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil mynychder a lledaeniad cymunedol amrywiolyn newydd o'r coronafeirws yn yr Ariannin; Brasil; Bolivia; Chile; Colombia; Ecuador; Guiana Ffrengig; Guyana; Gweriniaeth Cabo Verde; Gweriniaeth Panamá; Paraguay; Periw; Portiwgal; Suriname; Uruguay; a Venezuela wedi cynyddu.

O ran y gwledydd a'r tiriogaethau hyn, mae'r Rheoliadau yn:

- diwygio Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, sy'n rhestru'r gwledydd hynny a'r tiriogaethau hynny sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol yn rhinwedd rheoliadau 12E a 12F o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol;
- diwygio'r Rheoliadau Cyfyngiadau er mwyn gosod gofynion ynysu llymach ar bobl sydd wedi bod mewn un o'r gwledydd hynny a'r tiriogaethau hynny o fewn y cyfnod o 10 niwrnod cyn 4.00am ar 15 Ionawr 2021 ac ar unrhyw un ar yr un aelwyd â phobl o'r fath;
- cywiro testun Cymraeg paragraff 48 o Atodlen 4 i'r Rheoliadau Cyfyngiadau i egluro y caniateir i gartrefi arddangos aros ar agor mewn ardaloedd Lefel Rhybudd 4 – pwynt a godwyd mewn adroddiad blaenorol gan y Pwyllgor.

Cafwyd cyngor hefyd gan y Gydganolfan Bioddiogelwch bod y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil mynychder a lledaeniad y coronafeirws yn Aruba, ynysoedd Açores, Bonaire, Sint Eustatius a Saba, Chile, Madeira a Qatar wedi cynyddu.

O ran y gwledydd hyn a'r tiriogaethau hyn, mae'r Rheoliadau yn:

- eu hepgor o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt sydd wedi eu cynnwys o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol;
- gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â'r newid yn eu statws.

Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio diwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt technegol a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Daeth y Rheoliadau i rym cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Nodwn yr hysbysiad a ddarparwyd gan Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn llythyr at y Llywydd ar 14 Ionawr 2021, sy'n nodi'r canlynol:

> *"Heddiw, rwyf wedi gwneud y Rheoliadau yma o dan adrannau 45B, 45C(1) a (3), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym yn rhannol am 4.00am ar 15 Ionawr 2021 gyda'r darpariaethau sy'n weddill yn dod i rym am 4.00am ar 16 Ionawr 2021. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.*
>
> *"Yn unol ag adran 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu y bydd y Rheoliadau hyn yn dod i rym yn rhannol cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Ystyrir bod hyn yn ymateb angenrheidiol i'r newyddion bod amrywiolyn newydd o Covid-19 wedi'i ganfod yn gyntaf ym Mrasil, sy'n cynyddu'r risg a achosir gan deithwyr i Gymru, a hefyd yn sicrhau y gellir cynnal ymagwedd pedair gwlad ar deithio rhyngwladol."*

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur."*

Mae'r Rheoliadau'n diwygio'r Rheoliadau Cyfyngiadau yn ogystal â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Er nad oes cyfeiriad penodol at y Rheoliadau Cyfyngiadau yn y paragraff hwn, rydym yn cydnabod, fel gyda'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, ei bod yn annhebygol y bydd y Rheoliadau'n newid materion o ran hawliau dynol o dan y Rheoliadau Cyfyngiadau. Byddai'n cynorthwyo'r Pwyllgor pe bai modd egluro'r sefyllfa mewn perthynas â'r Rheoliadau Cyfyngiadau.

At hynny, mae adran 5(4) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn nodi nad yw Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn rhan o gyfraith ddomestig ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (23:00 ar 31 Rhagfyr 2020) neu wedi hynny. O'r herwydd, byddai darparu esboniad am y cyfeiriad at y Siarter yn y Memorandwm Esboniadol yn cynorthwyo'r Pwyllgor.

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."*

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r ail bwynt rhinweddau.

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
20 Ionawr 2021

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2021 Rhif 46 (Cy. 10)

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2021

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1609) (Cy. 335)) (y "Rheoliadau Cyfyngiadau").

Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn flaenorol gan:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer

Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595) (Cy. 136);

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/714) (Cy. 160);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/726) (Cy. 163);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/804) (Cy. 177);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/817) (Cy. 179);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/840) (Cy. 185);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (O.S. 2020/868) (Cy. 190);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (O.S. 2020/886) (Cy. 196);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (O.S. 2020/917) (Cy. 205);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2020 (O.S. 2020/944) (Cy. 210);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020 (O.S. 2020/962) (Cy. 216);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2020 (O.S. 2020/981) (Cy. 220);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2020 (O.S. 2020/1015) (Cy. 226);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020 (O.S. 2020/1042) (Cy. 231);
- Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor, Materion y Gymanwlad a Materion Datblygu) 2020 (O.S. 2020/942);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2020 (O.S. 2020/1080) (Cy. 243);

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2020 (O.S. 2020/1098) (Cy. 249);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) 2020 (O.S. 2020/1133) (Cy. 258);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) 2020 (O.S. 2020/1165) (Cy. 263);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2020 (O.S. 2020/1191) (Cy. 269);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2020 (O.S. 2020/1223) (Cy. 277);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020 (O.S. 2020/1232) (Cy. 278);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1237) (Cy. 279);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1288) (Cy. 286);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 20) 2020 (O.S. 2020/1329) (Cy. 295);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 21) 2020 (O.S. 2020/1362) (Cy. 301);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1477) (Cy. 316);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/1521) (Cy. 325);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 22) 2020 (O.S. 2020/1602) (Cy. 332);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, De Affrica) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1645) (Cy. 345);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Cymru) (Diwygio) 2021 (O.S. 2021/20) (Cy. 7); a

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2021 (O.S. 2021/24) (Cy. 8).

Mae'r Rheoliadau Cyfyngiadau wedi eu diwygio yn flaenorol gan:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/1610) (Cy. 336);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/1623) (Cy. 340);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, De Affrica) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1645) (Cy. 345); a
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Cymru) (Diwygio) 2021 (O.S. 2021/20) (Cy. 7).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau hynny.

Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio.

Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt. Mae rheoliad 2 yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn hepgor y cofnodion ar gyfer Aruba, ynysoedd Açores, Bonaire, Sint Eustatius a Saba, Chile, a Madeira a Qatar.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â'r newid yn statws y gwledydd a'r tiriogaethau hyn. Mae'r ddarpariaeth drosiannol yn ymdrin â maes a all fod yn destun amheuaeth o ran effaith y diwygiadau a wneir gan reoliad 2 o'r Rheoliadau hyn ar weithredu'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn rhestru'r gwledydd hynny a'r tiriogaethau hynny sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol yn rhinwedd

rheoliadau 12E a 12F o'r Rheoliadau hynny. Mae rheoliad 12E yn darparu, pan fo person wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth benodedig a restrir yn Atodlen 3A, ei bod yn ofynnol i'r person hwnnw ac aelodau ei aelwyd ynysu. At hynny, nid yw'r categorïau o bersonau esempt fel y'u disgrifir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gymwys, a chaiff person adael ynysiad o dan amgylchiadau mwy cyfyngedig. Mae rheoliad 12F yn gosod cyfyngiadau ar awyrennau a llestrau sy'n cyrraedd yn uniongyrchol o wlad a restrir yn Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae rheoliad 4 yn rhestru'r gwledydd a'r tiriogaethau a ganlyn yn Atodlen 3A: Ariannin; Brasil; Bolivia; Chile; Colombia; Ecuador; Guiana Ffrengig; Guyana; Gweriniaeth Cabo Verde; Gweriniaeth Panamá; Paraguay; Periw; Portiwgal; Suriname; Uruguay; a Venezuela.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Cyfyngiadau er mwyn gosod gofynion ynysu llymach ar bobl sydd wedi bod mewn un o 16 gwlad restredig o fewn y cyfnod o 10 niwrnod cyn 4.00 a.m. ar 15 Ionawr 2021 ac ar unrhyw un ar yr un aelwyd â phobl o'r fath. Mae'r rhain yn wledydd lle y ceir tystiolaeth o ledaeniad cymunedol amrywiolyn newydd o'r coronafeirws. Mae'r diwygiadau hefyd yn cywiro testun Cymraeg paragraff 48 o Atodlen 4 i'r Rheoliadau Cyfyngiadau i egluro y caniateir i gartrefi arddangos aros ar agor mewn ardaloedd Lefel Rhybudd 4.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2021 Rhif 46 (Cy. 10)

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2021

Gwnaed *14 Ionawr 2021*

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru am 12.30 p.m. ar 15 Ionawr 2021

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B, 45C(1) a (3), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi, dod i rym a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2021.

(2) Daw Rhannau 1, 3 a 4 o'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 15 Ionawr 2021.

(3) Daw Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 16 Ionawr 2021.

(4) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) ystyr y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol" yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(**1**);

(b) ystyr y "Rheoliadau Cyfyngiadau" yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020(**2**).

(**1**) O.S. 2020/574 (Cy. 132), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1329 (Cy. 295), O.S. 2020/1362 (Cy. 301), O.S. 2020/1477 (Cy. 316), O.S. 2020/1521 (Cy. 325), O.S. 2020/1602 (Cy. 332), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7) ac O.S. 2021/24 (Cy. 8).

(**2**) O.S. 2020/1609 (Cy. 335) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1610 (Cy. 336), O.S. 2020/1623 (Cy. 340), O.S. 2020/1645 (Cy. 345) ac O.S. 2021/20 (Cy. 7).

RHAN 2

Diwygiadau i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

Hepgor gwledydd a thiriogaethau o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt

2. Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), hepgorer y cofnodion a ganlyn—

"Aruba"

"ynysoedd Açores"

"Bonaire, Sint Eustatius a Saba"

"Chile"

"Madeira"

"Qatar".

Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 2

3.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person ("P")—

(a) yn cyrraedd Cymru am 4:00 a.m. ar 16 Ionawr 2021 neu wedi hynny, a

(b) wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2 ddiwethaf—

(i) o fewn y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, a

(ii) cyn 4.00 a.m. ar 16 Ionawr 2021.

(2) Mae P, yn rhinwedd y ffaith iddo fod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2, i'w drin at ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel pe bai wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt, neu fel pe bai wedi cyrraedd ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath.

RHAN 3

Diwygiadau eraill i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

Ychwanegu gwledydd at y rhestr o wledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol

4.Yn Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau sy'n

ddarostyngedig i fesurau ychwanegol), yn y lle priodol mewnosoder—

"Ariannin"

"Brasil"

"Bolivia"

"Chile"

"Colombia"

"Ecuador"

"Guiana Ffrengig"

"Guyana"

"Gweriniaeth Cabo Verde"

"Gweriniaeth Panamá"

"Paraguay"

"Periw"

"Portiwgal"

"Suriname"

"Uruguay"

"Venezuela".

Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 4

5. Nid yw rheoliad 12F o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gymwys mewn cysylltiad ag unrhyw hediad neu daith a gychwynnodd cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

Diwygio rheoliad 12E o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

6. Yn rheoliad 12E o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, ar ôl paragraff (8) mewnosoder—

"(9) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys pan, o ran P—

(a) mae'n weithiwr cludiant ffyrdd (o fewn yr ystyr a roddir ym mharagraff 6 o Atodlen 2),

(b) bu ddiwethaf ym Mhortiwgal o fewn y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dod i ben ar y diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, ac

(c) nid yw, yn ystod y cyfnod hwnnw, wedi bod mewn unrhyw wlad neu diriogaeth arall a restrir yn Atodlen 3A.
"

Diwygio Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

7. Ym mharagraff 8 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, hepgorer "yn unol â

Chonfensiwn Llafur Morwrol 2006 neu Gonfensiwn Gwaith mewn Pysgota 2007".

RHAN 4

Diwygiadau i'r Rheoliadau Cyfyngiadau

Diwygiadau i'r Rheoliadau Cyfyngiadau

8.—(1) Mae'r Rheoliadau Cyfyngiadau wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 11A, yn lle'r pennawd rhodder—

> **"Gofyniad i ynysu: darpariaeth benodol ar gyfer pobl sydd yng Nghymru ar 9 Ionawr 2021 ac sydd wedi bod mewn gwledydd penodol yn y 10 niwrnod blaenorol"**.

(3) Ar ôl rheoliad 11A mewnosoder—

> **"Gofyniad i ynysu: darpariaeth benodol ar gyfer pobl sydd yng Nghymru ar 15 Ionawr 2021 ac sydd wedi bod mewn gwledydd penodol yn y 10 niwrnod blaenorol**
>
> **11AA**.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo person ("P")—
>
> (a) yng Nghymru am 4.00 a.m. ar 15 Ionawr 2021,
>
> (b) wedi cyrraedd Cymru o fewn y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dod i ben yn union cyn 4.00 a.m. ar 15 Ionawr 2021, ac
>
> (c) wedi bod mewn gwlad restredig o fewn y cyfnod hwnnw.
>
> (2) Oni bai bod rheoliad 11B yn gymwys, ni chaiff P, nac unrhyw berson sy'n byw ar yr un aelwyd â P, adael y man lle y mae'n byw neu fod y tu allan iddo tan ddiwedd y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod yr oedd P mewn gwlad restredig ddiwethaf.
>
> (3) Os gofynnir iddo gan swyddog olrhain cysylltiadau, rhaid i P hysbysu'r swyddog olrhain cysylltiadau—
>
> (a) am enw pob person sy'n byw yn y man lle y mae P yn byw, a
>
> (b) am gyfeiriad y man hwnnw.
>
> (4) At ddibenion y rheoliad hwn, mae'r gwledydd a ganlyn yn wledydd rhestredig—
>
> (a) Ariannin;
>
> (b) Brasil;
>
> (c) Bolivia;
>
> (d) Chile;

(e) Colombia;

(f) Ecuador;

(g) Guiana Ffrengig;

(h) Guyana;

(i) Paraguay;

(j) Periw;

(k) Portiwgal;

(l) Gweriniaeth Cabo Verde;

(m) Gweriniaeth Panamá;

(n) Suriname;

(o) Uruguay;

(p) Venezuela.

(5) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys pan, o ran P—

(a) mae'n weithiwr cludiant ffyrdd (o fewn yr ystyr a roddir ym mharagraff 6 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020),

(b) mae wedi bod ym Mhortiwgal o fewn y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dod i ben yn union cyn 4.00 a.m. ar 15 Ionawr 2021, ac

(c) nid yw, yn ystod y cyfnod hwnnw, wedi bod mewn unrhyw wlad restredig arall."

(4) Yn rheoliad 11B(1), ar ôl "11A(2)" mewnosoder "neu 11AA(2)".

(5) Yn rheoliad 12, yn lle "neu 11A(2)" rhodder ", 11A(2) neu 11AA(2)".

(6) Yn rheoliad 14(2)(aa), ar ôl "11A(2)" mewnosoder "neu 11AA(2)".

(7) Yn rheoliad 22(4)(a), yn lle "neu 11A(2)" rhodder ", 11A(2) neu 11AA(2)".

(8) Yn rheoliad 30, yn lle "neu 11A(2)" rhodder ", 11A(2) neu 11AA(2)".

(9) Yn rheoliad 40—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn is-baragraff (a), ar ôl "11A(2)" mewnosoder ", 11AA(2)";

(ii) yn is-baragraff (b), yn lle "neu 11A(3)" rhodder ", 11A(3) neu 11AA(3)";

(b) ym mharagraff (2)(a), yn lle "neu 11A(3)" rhodder ", 11A(3) neu 11AA(3)".

(10) Ym mharagraff 48 o Atodlen 4, yn y testun Cymraeg, yn lle "a chartrefi arddangos" rhodder "a swyddfeydd gwerthiant datblygwyr".

Vaughan Gething
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
14 Ionawr 2021

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2021.

Vaughan Gething
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

15 Ionawr 2021

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2029 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Cyfyngiadau")

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn frys a nodir yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo gan y Senedd. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, gan fod brys, bod angen gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir cymryd camau iechyd cyhoeddus er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad i iechyd pobl rhag coronafeirws. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion fel y'u nodir yn y Rheoliadau hyn yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd cyhoeddus i'r bygythiad presennol a achosir gan y coronafeirws.

Yn dod i rym

Yn unol ag adrannau 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd y daeth y Rheoliadau i rym yn rhannol cyn iddynt gael eu gosod, am fod angen ymateb ar frys i newidiadau a nodwyd yn sgil yr amrywiolion newydd hyn sy'n peri gofid.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B, 45C(1) a (3), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf 1984.

Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a'r Rheoliadau Cyfyngiadau yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Gwnaed y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ar 5 Mehefin 2020 a daethant i rym ar 8 Mehefin 2020 mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd

a berir gan fynychder a lledaeniad syndrom anadlol acíwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae newidiadau wedi'u gwneud i'r rhestr o'r gwledydd a'r tiriogaethau esempt na fyddai'n ofynnol i deithwyr hunanynysu ar ôl cyrraedd Cymru ohonynt – yn fwyaf diweddar ar 8 Ionawr 2021.

Mae'r cyngor sydd bellach wedi dod i law oddi wrth y Gydganolfan Bioddiogelwch yn dangos bod y risg i iechyd y cyhoedd a achosir gan fynychder a lledaeniad cymunedol yr amrywiolyn newydd o'r coronafeirws yn yr Ariannin, Brasil, Bolivia, Chile, Colombia, Ecuador, Guiana Ffrengig, Guyana, Paraguay, Periw, Portiwgal, Gweriniaeth Cabo Verde, Gweriniaeth Panama, Suriname, Uruguay a Venezuela wedi cynyddu.

Mae mesurau newydd yn cael eu hychwanegu nawr at y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n dod i Gymru o'r gwledydd hyn i ynysu a bydd y gofyn hwnnw i ynysu yn gymwys hefyd i holl aelodau aelwyd unrhyw berson sy'n dod i Gymru o 4.00am, fore 15 Ionawr 2021.

Mae'r Rheoliadau'n datgymhwyso hefyd yr holl esemptiadau sectorol yn Atodlen 2 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, fel na chaiff unrhyw berson sy'n cyrraedd Cymru sydd wedi bod yn y gwledydd hyn yn y 10 niwrnod blaenorol ei esemptio rhag y gofynion i ddarparu gwybodaeth teithiwr ac i ynysu. Bydd rhestr fyrrach nag sy'n arferol o resymau dros beidio ag ynysu dros dro hefyd yn gymwys, fel rhan o'r ymateb i'r bygythiad i iechyd y cyhoedd.

Mae'r newidiadau hyn yn angenrheidiol oherwydd yr adroddiadau sy'n cyrraedd o'r gwledydd hynny am y peryglon sy'n ymddangos i iechyd o straen newydd sydd wedi'i nodi o coronafeirws sy'n heintus iawn.

Er mwyn ymateb yn effeithiol i'r sefyllfa sy'n dod i'r amlwg, gwnaed diwygiadau hefyd i Reoliadau Rhif 5, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i berson a gyrhaeddodd Cymru cyn 4.00 a.m. ar 15 Ionawr ar ôl bod yn y gwledydd hyn yn ystod y 10 diwrnod blaenorol i ynysu am 10 diwrnod o'r dyddiad yr oeddent ddiwethaf yn y gwledydd hynny. Bydd y gofyniad hwn hefyd yn ymestyn hefyd i unrhyw aelodau o aelwyd y person hwnnw.

Bydd cyfyngiadau yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol sy'n atal llongau ac awyrennau rhag cyrraedd Cymru'n uniongyrchol yn gymwys hefyd i'r gwledydd hyn o 4.00am ar 16 Ionawr 2021.

Mae'r diwygiadau hyn yn cyd-fynd â gweithrediad Llywodraeth y DU o bwerau mewnfudo, a fydd yn gwrthod mynediad i bob teithiwr nad yw'n wladolyn neu'n breswylydd Prydeinig sy'n cyrraedd ffiniau'r DU o 4.00am ddydd Llun 18 Ionawr 2021.

Er mwyn cefnogi gweithredu'r gofynion newydd hyn yn effeithiol, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru bellach yn cysylltu ar frys â holl drigolion Cymru sydd wedi bod yn y gwledydd hyn yn y 10 diwrnod diwethaf i esbonio'r gofynion ynysu newydd.

Yn ogystal, cafwyd cyngor gan y JBC bod y risg i iechyd y cyhoedd a achosir gan fynychder a lledaeniad y coronafeirws yn Aruba, yr Azores, Bonaire, Sint Eustatius a Saba, a Madeira wedi cynyddu. Ar sail y cyngor hwn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai gofynion i ynysu yn awr gael eu cyflwyno ar gyfer teithwyr sy'n dod i Gymru o'r gwledydd a'r tiriogaethau hynny.

Daeth y gofynion diwygiedig i rym ar gyfer unrhyw deithwyr sy'n cyrraedd yr Ardal Deithio Gyffredin o'r gwledydd hyn am 4.00 a.m. 16 Ionawr 2021, neu wedi hynny.

Nid yw'r diwygiad hwn i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn effeithio ar y gofynion o dan y Rheoliadau hynny i bersonau sy'n cyrraedd yr Ardal Deithio Gyffredin cyn i'r diwygiadau ddod i rym.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn fod y diwygiadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

5. Ymgynghori

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

Vaughan Gething AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/VG/0168/21

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

14 Ionawr 2021

Annwyl Elin,

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2021

Heddiw, rwyf wedi gwneud y Rheoliadau yma o dan adrannau 45B, 45C(1) a (3), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym yn rhannol am 4.00am ar 15 Ionawr 2021 gyda'r darpariaethau sy'n weddill yn dod i rym am 4.00am ar 16 Ionawr 2021. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol ag adran 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu y bydd y Rheoliadau hyn yn dod i rym yn rhannol cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Ystyrir bod hyn yn ymateb angenrheidiol i'r newyddion bod amrywiolyn newydd o Covid-19 wedi'i ganfod yn gyntaf ym Mrasil, sy'n cynyddu'r risg a achosir gan deithwyr i Gymru, a hefyd yn sicrhau y gellir cynnal ymagwedd pedair gwlad ar deithio rhyngwladol.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 10 Chwefror 2021 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 26 Ionawr 2021.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Yn gywir,

Vaughan Gething AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020**
DYDDIAD	**14 Ionawr 2021**
GAN	**Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud darpariaeth yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 i sicrhau bod teithwyr sy'n cyrraedd Cymru o wledydd a thiriogaethau tramor yn gorfod hunanynysu am 10 diwrnod, a darparu gwybodaeth amdanynt eu hunain fel teithwyr, er mwyn atal y coronafeirws rhag lledaenu ymhellach. Daeth y cyfyngiadau hyn i rym ar 8 Mehefin 2020.

Ar 10 Gorffennaf, diwygiodd Llywodraeth Cymru'r Rheoliadau hyn i gyflwyno eithriadau i'r gofyniad i hunanynysu ar gyfer rhestr o wledydd a thiriogaethau, ac ar gyfer ystod gyfyngedig o bobl mewn sectorau neu gyflogaeth arbenigol a allai fod wedi'u heithrio rhag y gofyniad i hunanynysu neu rhag rhai o ddarpariaethau'r gofynion ynghylch gwybodaeth am deithwyr.

Ers hynny, mae'r Rheoliadau hyn wedi'u hadolygu'n gyson ac mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio.

Heddiw, adolygais asesiadau diweddaraf y Gydganolfan Bioddiogelwch (JBC) ac rwyf wedi penderfynu y bydd Aruba, Ynysoedd Açore, Bonaire, Sint Eustatius a Saba, Chile, Madeira a Qatar yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio. Felly bydd rhaid i deithwyr o'r gwledydd hynny hunanynysu pan fyddant yn cyrraedd Cymru.

Fe wnaeth asesiad y JBC hefyd ystyried ymddangosiad amrywiolyn newydd ym Mrasil ac mae'r JBC yn argymell bod dull rhagofalus yn briodol nes bod gwybodaeth bendant ar gael.

Mae gan Uruguay, Paraguay, Ariannin, Bolivia, Periw, Colombia, Surinam, a Guiana Ffrengig gysylltiadau teithio cryf â Brasil ac mae'r data epidemiolegol a adroddir ganddynt yn cynyddu, sy'n gyson ag amrywiolyn newydd. Yn ogystal, mae gan Chile ffin ag Ariannin, sydd wedi adrodd bod yr amrywiolyn yn lledaenu mewn cymunedau a bod ei metrigau epidemiolegol yn cynyddu.

Felly, rwyf wedi penderfynu y dylid cymryd camau i ddileu'r eithriadau sectoraidd ar gyfer teithwyr sy'n cyrraedd o'r gwledydd hyn y gallai fod cysylltiad rhyngddynt a'r amrywiolyn newydd hwn. Bydd yn ofynnol i bob teithiwr sy'n cyrraedd Cymru sydd wedi bod yn y gwledydd hyn yn ystod y 10 diwrnod blaenorol hunanynysu am 10 diwrnod, a dim ond

mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn y bydd yn gallu gadael y man ynysu. Bydd yr un gofynion ynysu hefyd yn berthnasol i bob aelod o'u haelwyd. Bydd y gofynion ynysu cryfach hyn hefyd yn berthnasol i bobl sydd eisoes yng Nghymru sydd wedi bod yn y gwledydd hyn yn ystod y 10 diwrnod diwethaf, ac i aelodau eu haelwydydd.

Yn ogystal, ni fydd hediadau uniongyrchol o'r gwledydd hyn yn cael glanio yng Nghymru mwyach.

Bydd y rheoliadau angenrheidiol yn cael eu gwneud heddiw a bydd y mesurau ychwanegol sy'n ymwneud ag amrywiolyn Brasil yn dod i rym am 04:00 ddydd Gwener 15 Ionawr 2021, a'r gweddill yn dod i rym am 04:00 ddydd Sadwrn 16 Ionawr a byddant yn cael eu gosod yfory unwaith y byddant wedi'u cofrestru.

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2021 Rhif 57 (Cy. 13)

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2021

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1609 (Cy. 335)) ("y Rheoliadau Cyfyngiadau") er mwyn—

(a) ei gwneud yn ofynnol i bob person sy'n ddarostyngedig i'r rhwymedigaeth yn rheoliad 16 i gymryd mesurau i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn ei fangre gynnal asesiad penodol o'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y fangre honno ac ymgynghori ar hynny;

(b) gwneud darpariaeth benodol ynghylch y mesurau y mae rhaid eu cymryd i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws mewn mangreoedd manwerthu;

(c) gwneud darpariaeth sy'n gosod dyletswyddau ar berchnogion ysgolion a sefydliadau addysg bellach i atal disgyblion neu fyfyrwyr rhag mynd i'w mangreoedd, yn ddarostyngedig i rai eithriadau cyfyngedig;

(d) gwneud newidiadau canlyniadol a mân newidiadau eraill i sicrhau cysondeb â'r darpariaethau newydd.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1011 (Cy. 225)) ("y Rheoliadau Swyddogaethau Awdurdodau Lleol"). Mae'r diwygiad yn ganlyniadol ar wneud y Rheoliadau Cyfyngiadau ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol, wrth benderfynu pa un ai i roi cyfarwyddyd digwyddiad o dan y Rheoliadau Swyddogaethau Awdurdodau Lleol, roi sylw i a all y digwyddiad arwain at bobl yn ymgynnull yn groes i'r Atodlen berthnasol i'r Rheoliadau Cyfyngiadau. Mae'r Rheoliadau hefyd yn dirymu deddfiadau sydd wedi eu disbyddu sy'n ymwneud â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1219 (Cy. 276)).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2021 Rhif 57 (Cy. 13)

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2021

Gwnaed *am 12.48 p.m. ar 19 Ionawr 2021*

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru *am 5.30 p.m. ar 19 Ionawr 2021*

Yn dod i rym *20 Ionawr 2021*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 20 Ionawr 2021.

Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020

2.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 16—

(a) o flaen paragraff (1)(a), mewnosoder—

"(za) cynnal asesiad penodol o'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y fangre ac, wrth wneud hynny, ymgynghori â phersonau sy'n gweithio yn y fangre neu gynrychiolwyr y personau hynny;"

(b) ar ôl paragraff (2), mewnosoder—

"(3) Rhaid i asesiad o dan baragraff (1)(za)—

(a) bodloni gofynion rheoliad 3 o Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999(**2**) ("Rheoliadau 1999"), a

(b) cael ei gynnal—

(i) pa un a yw'r person cyfrifol eisoes wedi cynnal asesiad o dan y rheoliad hwnnw ai peidio, a

(ii) pa un a yw'r rheoliad hwnnw yn gymwys i'r person cyfrifol ai peidio.

(4) At ddibenion paragraff (3)—

(a) mae rheoliad 3 o Reoliadau 1999 i'w ddarllen fel pe bai'r geiriau "by regulations 16, 17 and 17A of the Health Protection (Coronavirus

(**1**) O.S. 2020/1609 (Cy. 335) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1610 (Cy. 336).

(**2**) O.S. 1999/3242. Diwygiwyd rheoliad 3 gan O.S. 2005/1541, O.S. 2015/21 ac O.S. 2015/1637.

Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020" wedi eu rhoi yn lle "by or under the relevant statutory provisions and by Part II of the Fire Precautions (Workplace) Regulations 1997", yn y ddau le y maent yn digwydd, a

(b) os na fyddai rheoliad 3 o Reoliadau 1999 yn gymwys i berson cyfrifol oni bai am baragraff (3)(b)(ii)—

(i) mae'r rheoliad hwnnw i'w drin fel pe bai'n gymwys i'r person fel pe bai'r person yn gyflogwr, a

(ii) mae personau sy'n gweithio yn y fangre i'w trin, at ddibenion y rheoliad hwnnw fel y mae'n gymwys yn rhinwedd paragraff (3)(b)(ii), fel pe baent wedi eu cyflogi gan y person cyfrifol."

(3) Yn rheoliad 17—

(a) yn lle paragraffau (1) a (2) rhodder—

"(1) Pan fo rheoliad 16(1) yn gymwys i berson sy'n gyfrifol am fangre sydd wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre, mae'r mesurau sydd i'w cymryd gan y person cyfrifol yn cynnwys y canlynol (ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt)—

(a) cael person sy'n rheoli mynediad i'r fangre ac sy'n dyrannu cyfnod amser cyfyngedig y caiff cwsmeriaid aros yn y fangre ar ei gyfer;

(b) ei gwneud yn ofynnol i gwsmeriaid fod yn eistedd yn y fangre yn unrhyw le ac eithrio wrth far—

(i) pan fyddant yn archebu bwyd neu ddiod,

(ii) pan weinir bwyd neu ddiod iddynt, a

(iii) pan fyddant yn bwyta neu'n yfed.";

(b) ym mharagraff (4), yn lle "(2)" rhodder "(1)".

(4) Ar ôl rheoliad 17, mewnosoder—

"**Mesurau penodol sy'n gymwys i fangreoedd manwerthu**

17A. Pan fo rheoliad 16(1) yn gymwys i berson sy'n gyfrifol am fangre fanwerthu busnes sy'n cynnig nwyddau neu wasanaethau ar gyfer eu gwerthu neu eu llogi yn y fangre honno (gan gynnwys busnesau sy'n gwerthu bwyd neu ddiod i'w fwyta neu i'w hyfed oddi ar

y fangre), mae'r mesurau sydd i'w cymryd gan y person cyfrifol yn cynnwys y canlynol (ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt)—

(a) mesurau ar gyfer rheoli mynediad i'r fangre a chyfyngu ar nifer y cwsmeriaid sydd yn y fangre ar unrhyw adeg;

(b) darparu cynhyrchion diheintio dwylo neu gyfleusterau golchi dwylo i'w defnyddio gan gwsmeriaid pan fyddant yn mynd i'r fangre ac yn ymadael â hi;

(c) mesurau i ddiheintio unrhyw fasgedi, troliau neu gynwysyddion tebyg a ddarperir i gwsmeriaid eu defnyddio yn y fangre;

(d) er mwyn atgoffa cwsmeriaid i gynnal pellter o 2 fetr rhyngddynt ac i wisgo gorchudd wyneb—

(i) arddangos arwyddion a chymhorthion gweledol eraill;

(ii) gwneud cyhoeddiadau yn rheolaidd."

(5) Yn rheoliad 18(1), yn lle "neu 17(1)" rhodder ", 17(1) neu 17A".

(6) Yn rheoliad 25(3)(a)(i), yn lle "neu 17(1)" rhodder ", 17(1) neu 17A".

(7) Yn rheoliad 26, yn lle "a 17(1)" rhodder ", 17(1) a 17A".

(8) Ym mharagraff 6(5)(e) o Atodlen 1, yn y testun Saesneg, hepgorer "and is" yn y lle cyntaf y mae'n digwydd.

(9) Ym mharagraff 6(5)(e) o Atodlen 2, yn y testun Saesneg, hepgorer "and is" yn y lle cyntaf y mae'n digwydd.

(10) Ym mharagraff 6(5)(e) o Atodlen 3, yn y testun Saesneg, hepgorer "and is" yn y lle cyntaf y mae'n digwydd.

(11) Yn Atodlen 4, ar ôl paragraff 6 mewnosoder—

"RHAN 3A

Cyfyngiadau ar fynd i ysgolion a sefydliadau addysg bellach

Cyfyngiadau ar fynd i fangreoedd ysgolion

6A.—(1) Ni chaiff perchennog ysgol yng Nghymru ganiatáu i ddisgybl fynd i fangre'r ysgol.

(2) Ond nid yw is-baragraff (1) yn atal perchennog rhag caniatáu—

(a) i ddisgybl fynd i fangre ysgol—

(i) i sefyll arholiad neu wneud asesiad arall;

(ii) pa fo perchennog yr ysgol y mae'r disgybl wedi ei gofrestru ynddi yn hysbysu rhiant y disgybl ei fod yn ystyried ei bod yn briodol i'r disgybl fynd yno oherwydd hyglwyfedd y disgybl;

(iii) pan—

(aa) bo'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol y mae'r disgybl wedi ei gofrestru ynddi, neu

(bb) perchennog yr ysgol annibynnol y mae'r disgybl wedi ei gofrestru ynddi,

yn penderfynu bod y disgybl yn blentyn i weithiwr hanfodol;

(b) disgybl rhag mynd i fangre ysgol arbennig;

(c) disgybl rhag mynd i fangre uned cyfeirio disgyblion;

(d) disgybl rhag mynd i fangre uned mewn ysgol, pan—

(i) bo awdurdod lleol yn cydnabod bod yr uned wedi ei neilltuo ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, a

(ii) bo'r disgybl yn cael ei addysgu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn yr uned;

(e) disgybl sy'n ddisgybl preswyl rhag preswylio mewn llety ym mangre'r ysgol.

(3) Wrth benderfynu a yw disgybl yn blentyn i weithiwr hanfodol, rhaid i'r awdurdod lleol neu berchennog ysgol annibynnol roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ynghylch adnabod plant gweithwyr hanfodol.

Cyfyngiad ar fynd i fangre addysg bellach

6B.—(1) Ni chaiff perchennog sefydliad addysg bellach yng Nghymru ganiatáu i fyfyriwr fynd i fangre'r sefydliad addysg bellach.

(2) Ond nid yw is-baragraff (1) yn atal perchennog rhag caniatáu i fyfyriwr fynd i fangre—

(a) sefydliad addysg bellach i sefyll arholiad neu wneud asesiad arall;

(b) sefydliad yn y sector addysg bellach pan fo'r sefydliad yn hysbysu'r myfyriwr ei fod yn ystyried ei bod yn briodol i'r myfyriwr fynd yno oherwydd hyglwyfedd y myfyriwr.

Gorfodi

6C. Mae unrhyw fethiant gan berchennog i gydymffurfio â pharagraff 6A neu 6B yn orfodadwy drwy gais am waharddeb gan Weinidogion Cymru neu gan yr awdurdod lleol y digwyddodd y methiant honedig yn ei ardal i'r Uchel Lys neu'r Llys Sirol, heb rybudd.

Dehongli Rhan 3A

6D. Yn y Rhan hon—

(a) ystyr "Deddf 1996" yw Deddf Addysg 1996(**1**);

(b) mae i "disgybl preswyl" yr ystyr a roddir i "boarder" gan adran 579 o Ddeddf 1996;

(c) ystyr "sefydliad addysg bellach" yw—

(i) sefydliad yn y sector addysg bellach;

(ii) darparwr addysg neu hyfforddiant o fewn ystyr "education or training" yn adran 31(1)(a) neu (b) neu 32(1)(a) neu (b) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000(**2**)—

(aa) nad yw'n sefydliad o fewn ystyr paragraff (i),

(bb) nad yw'n sefydliad yn y sector addysg uwch o fewn ystyr "higher education sector" yn adran 91(5) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**3**), ac

(cc) sy'n cael cyllid i ddarparu'r addysg honno neu'r hyfforddiant hwnnw gan Weinidogion Cymru neu awdurdod lleol,

ond nid yw'n cynnwys cyflogwr sy'n ddarparwr dim ond am fod y cyflogwr yn darparu addysg neu

(**1**) 1996 p. 56.
(**2**) 2000 p. 21.
(**3**) 1992 p. 13.

hyfforddiant o'r fath i'w gyflogeion;

(d) mae i "ysgol annibynnol" yr ystyr a roddir i "independent school" gan adran 463 o Ddeddf 1996;

(e) mae i "sefydliad o fewn y sector addysg bellach" yr ystyr a roddir i "institutions within the further education sector" gan adran 91(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992;

(f) mae i "rhiant" yr ystyr a roddir i "parent" gan adran 576 o Ddeddf 1996;

(g) mae i "perchennog" yr ystyr a roddir i "proprietor" gan adran 579 o Ddeddf 1996 mewn perthynas ag ysgol a'i ystyr, mewn perthynas â sefydliad nad yw'n ysgol, yw'r person neu'r corff o bersonau sy'n gyfrifol am reoli'r sefydliad;

(h) mae i "disgybl" yr ystyr a roddir i "pupil" gan adran 3 o Ddeddf 1996;

(i) mae i "uned cyfeirio disgyblion" yr ystyr a roddir i "pupil referral unit" gan adran 19 o Ddeddf 1996;

(j) mae i "anghenion addysgol arbennig" yr ystyr a roddir i "special educational needs" gan adran 312 o Ddeddf 1996;

(k) ystyr "ysgol arbennig" yw—

(i) ysgol arbennig o fewn yr ystyr a roddir i "special school" gan adran 337 o Ddeddf 1996;

(ii) ysgol annibynnol sy'n darparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf addysg ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig;

(l) mae i "ysgol" yr ystyr a roddir i "school" gan adran 4 o Ddeddf 1996."

(12) Yn Atodlen 8—

(a) ym mharagraff 1—

(i) yn is-baragraff (1)(a), yn lle "neu 17" rhodder ", 17 neu 17A";

(ii) yn is-baragraff (2)(b), yn lle "neu 17" rhodder ", 17 neu 17A";

(b) ym mharagraff 2—

(i) yn is-baragraff (3)(a), yn lle "neu 17" rhodder ", 17 neu 17A";

(ii) yn is-baragraff (4)(b)(ii), yn lle "neu 17" rhodder ", 17 neu 17A";

(iii) yn is-baragraff (4)(c), yn lle "neu 17" rhodder ", 17 neu 17A";

(c) ym mharagraff 3(3)(c), ar ôl "17" mewnosoder "neu 17A";

(d) ym mharagraff 4(1)(b), ar ôl "17" mewnosoder "neu 17A".

Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020

3.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3(1), yn lle "19 Chwefror" rhodder "31 Mawrth".

(3) Yn rheoliad 6—

(a) yn lle paragraff (2) rhodder—

"(2) Wrth ystyried a yw'r amodau iechyd y cyhoedd wedi eu bodloni, rhaid i awdurdod lleol, yn benodol, roi sylw i a yw pobl yn ymgynnull, neu'n debygol o ymgynnull, yn y digwyddiad yn groes i ba un bynnag o'r darpariaethau a ganlyn o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 sy'n gymwys i'r ardal lle y cynhelir y digwyddiad neu lle y bwriedir cynnal y digwyddiad—

(a) paragraff 2 o Atodlen 1;

(b) paragraff 2 o Atodlen 2;

(c) paragraff 2 o Atodlen 3;

(d) paragraff 2 o Atodlen 4."

(b) hepgorer paragraff (8).

Dirymu

4. Mae'r Rheoliadau a ganlyn wedi eu dirymu —

(a) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020(**2**);

(b) rheoliad 7 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020(**3**);

(c) rheoliad 2 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws a Swyddogaethau

(**1**) O.S. 2020/1011 (Cy. 225) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1100 (Cy. 250), O.S. 2020/1149 (Cy. 261), O.S. 2020/1219 (Cy. 276), O.S. 2020/1409 (Cy. 311)_ac O.S. 2020/1609 (Cy. 335).

(**2**) O.S. 2020/1237 (Cy. 279) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1288 (Cy. 286) ac O.S. 2020/1609 (Cy. 335).

(**3**) O.S. 2020/1288 (Cy. 286) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1609 (Cy. 335).

Awdurdodau Lleol) (Diwygio) (Cymru) 2020(**1**);

(d) rheoliadau 4 a 5 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020(**2**);

(e) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) (Diwygio) 2020(**3**).

Mark Drakeford
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 12.48 p.m. ar 19 Ionawr 2021

(**1**) O.S. 2020/1409 (Cy. 311).
(**2**) O.S. 2020/1477 (Cy. 316).
(**3**) O.S. 2020/1522 (Cy. 326).

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2021.

Mark Drakeford
Y Prif Weinidog

19 Ionawr 2021

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (“y prif Reoliadau”) a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020 (“Rheoliadau Swyddogaethau Awdurdodau Lleol”).

2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys a amlinellir yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a’i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Mae Gweinidogion Cymru o’r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion sydd wedi'u nodi yn y Rheoliadau hyn yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i’r bygythiad presennol a berir gan y coronafeirws.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Er bod y prif Reoliadau, fel y’u diwygiwyd gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae’r Llywodraeth o’r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu bod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae’r Llywodraeth o’r farn hefyd eu bod yn gymesur.

Mae Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) yn cael eu cyffwrdd gan y prif Reoliadau. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn cyffwrdd ag Erthygl 2 o'r Protocol Cyntaf (hawl i addysg). Er gwaethaf cau mangreoedd ysgolion i rai dysgwyr, mae ysgolion a gynhelir yn parhau o dan eu dyletswyddau arferol, ond mae'r ddyletswydd i gyflwyno'r cwricwlwm wedi'i haddasu i ddyletswydd i ddefnyddio ymdrechion rhesymol i gyflwyno'r cwricwlwm (gan ddefnyddio hysbysiad o dan Atodlen 17 i Ddeddf Coronafeirws 2020).

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod cyfreithlon, sef diogelu iechyd y cyhoedd a'u bod yn gymesur. Hefyd, mae angen cydbwyso unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae gweithredu’r cyfyngiadau a’r gofynion o dan prif Reoliadau yn ymateb cymesur i ledaeniad cynyddol y coronafeirws. Mae'n

cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a berir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

Nid yw'r Rheoliadau diwygio yn newid natur na chwmpas yr ymwneud â hawliau unigol.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wneir oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf 1984. Caiff rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn eu hamlinellu yn y Memorandwm Esboniadol i'r prif Reoliadau.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan nifer achosion a lledaeniad y coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a elwir yn COVID-19 neu'r "coronafeirws".

Roedd y prif Reoliadau a wnaed ar 18 Rhagfyr yn amlinellu cyfyngiadau a gofynion a fydd yn berthnasol i bedair gwahanol Lefel Rhybudd a chaiff y Lefelau Rhybudd eu hamlinellu yn y fersiwn fwyaf diweddar o'r Cynllun Rheoli Coronafeirws. Mae Cymru wedi bod o dan Lefel Rhybudd Pedwar ers dechrau'r dydd ar 20 Rhagfyr 2020.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau er mwyn:

a. ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n gyfrifol am fangreoedd busnes sy'n agored i'r cyhoedd, cerbydau gwasanaeth cyhoeddus a gweithleoedd gynnal asesiad risg penodol ar gyfer y coronafeirws;

b. pennu mesurau rhesymol ychwanegol sy'n gymwys i fangreoedd manwerthu a mangreoedd sydd wedi'u trwyddedu i werthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre;

c. ei gwneud yn ofynnol i berchennog ysgol neu sefydliad addysg bellach beidio â chaniatáu i ddisgyblion fynychu mangre'r ysgol, neu beidio â chaniatáu i fyfyrwyr fynychu mangre sefydliad addysg bellach (yn ddarostyngedig i eithriadau penodedig);

d. gwneud mân ddiwygiadau canlyniadol a thechnegol i'r prif Reoliadau ac i'r Rheoliadau Swyddogaethau Awdurdodau Lleol.

Asesiad risg coronafeirws

O dan Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999, rhaid i gyflogwr nodi peryglon, penderfynu ar y risg a chymryd camau i ddileu'r perygl neu i reoli'r risg. Ochr yn ochr â'r gofynion hyn, mae Rhan 4 o'r prif Reoliadau yn gwneud darpariaeth at y diben o leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws mewn mangreoedd sy'n agored i'r cyhoedd ac mewn gweithleoedd.

Mae'r prif Reoliadau bellach wedi'u diwygio i'w gwneud yn ofynnol cynnal asesiad risg penodol ar gyfer y coronafeirws, gan ymgynghori ag unrhyw berson sy'n gweithio yn y fangre neu'r gweithle (neu ei gynrychiolwyr). Bydd yr asesiad risg hwn yn sail i'r rhwymedigaeth sy'n bodoli eisoes i gymryd "pob mesur rhesymol" i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws mewn mangreoedd sy'n agored i'r cyhoedd a gweithleoedd. Mae canllawiau'n cael eu diweddaru i ddarparu y dylai'r asesiad risg ystyried materion megis:

- a yw'r awyru'n ddigonol i leihau'r risgiau ac a oes angen ystyried mesurau lliniaru;
- a yw cadw pellter o 2m yn ymarferol;
- i ba raddau y gall defnyddio sgriniau, cyfarpar diogelu personol a gorchuddion wyneb liniaru'r risgiau;
- i ba raddau y gall pobl weithio gartref.

Bydd yn ofynnol adolygu a diweddaru'r asesiad yn rheolaidd, yn enwedig pe bai'r lefelau rhybudd coronafeirws yn cael eu codi i lefel uwch yng Nghymru.

Mangreoedd manwerthu

Mae rheoliad 16 o'r prif Reoliadau yn gymwys i "fangre reoleiddiedig" sy'n cynnwys mangre fanwerthu. Mae'n ofynnol i fangre o'r fath gymryd (1) pob mesur rhesymol i sicrhau bod pellter o 2 fetr yn cael ei gynnal rhwng personau yn y fangre; (2) pob mesur rhesymol arall, er enghraifft i gyfyngu ar ryngweithio wyneb yn wyneb agos a chynnal hylendid; a (3) darparu gwybodaeth i'r rhai sy'n mynd i mewn i fangre neu sy'n gweithio ynddi ynghylch sut i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

Ceir tystiolaeth o gydymffurfiaeth dda mewn busnesau o bob math a phob maint, ond mae pryderon hefyd yn cael eu codi gan awdurdodau lleol, a chan gyrff sy'n cynrychioli gweithwyr, ynghylch diffyg cadw pellter corfforol a gorlenwi mewn siopau manwerthu. Yng ngoleuni lledaeniad y coronafeirws, a'r lefelau trosglwyddo presennol, bydd y Rheoliadau bellach hefyd yn ei gwneud yn ofynnol yn benodol i berchnogion a gweithredwyr mangreoedd manwerthu sy'n agored:

- roi mesurau ar waith i reoli mynediad i'w mangreoedd a chyfyngu ar nifer y cwsmeriaid sydd yn y fangre ar unrhyw un adeg;
- darparu cynhyrchion diheintio dwylo neu gyfleusterau golchi dwylo i gwsmeriaid pan fyddant yn dod i mewn i'r fangre ac yn ei gadael;
- rhoi mesurau ar waith i ddiheintio basgedi neu drolïau; ac
- atgoffa cwsmeriaid o'r angen i gynnal pellter o 2m drwy arwyddion a chyhoeddiadau.

Mae'r gofynion hyn yn berthnasol i bob manwerthwr y caniateir iddo fod ar agor o fewn unrhyw Lefel Rhybudd.

Ysgolion a mangreoedd addysg bellach

Ar 4 Ionawr 2021, cytunodd pedwar Prif Swyddog Meddygol y Deyrnas Unedig fod y DU bellach ar y lefel risg uchaf, sef Lefel 5 y Gydganolfan Bioddiogelwch. Yng ngoleuni'r penderfyniad hwnnw cytunodd Llywodraeth Cymru, gan ymgynghori â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Colegau Cymru, y dylai pob ysgol, coleg ac ysgol annibynnol symud i ddysgu ar-lein.

Ar 8 Ionawr cyhoeddais y byddai'r dull hwn yn parhau, ond y byddai'n cyd-fynd â chylch adolygu'r prif Reoliadau, bob tair wythnos. Oni bai bod gostyngiad sylweddol yn nifer yr achosion o'r coronafeirws cyn yr adolygiad y mae'n rhaid ei gynnal erbyn 29 Ionawr, dylai ysgolion a cholegau yng Nghymru barhau i gynnal darpariaeth ar-lein tan ddiwedd hanner tymor mis Chwefror.

Mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn:

- yn atal perchnogion rhag caniatáu i ddisgyblion fynychu mangre'r ysgol, gan gynnwys ysgolion annibynnol;
- yn atal perchnogion rhag caniatáu i fyfyrwyr fynychu mangreoedd sefydliadau addysg bellach.

Nid yw'r Rheoliadau yn atal y perchennog rhag caniatáu i'r canlynol fynychu'r fangre:

- dysgwyr yn yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach sy'n ymgymryd ag arholiadau neu asesiadau;
- dysgwyr yn yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach sy'n agored i niwed (fel y'u pennir gan y perchennog); a
- dysgwyr yn yr ysgol sy'n blant i weithwyr hanfodol (fel y'u pennir gan yr awdurdod lleol).

Mae'r Rheoliadau hefyd yn caniatáu i'r perchennog ganiatáu i ddysgwyr fynychu mangreoedd ysgolion arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unedau anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion. At hynny, nid ydynt yn atal disgybl preswyl rhag byw mewn llety ym mangre'r ysgol. Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer gorfodi unrhyw fethiant i gydymffurfio gan Weinidogion Cymru neu'r awdurdod lleol y digwyddodd y methiant honedig yn ei ardal.

Diwygiadau canlyniadol a thechnegol

Yng ngoleuni'r diwygiadau a wnaed uchod, mae angen nifer o fân ddiwygiadau canlyniadol hefyd i'r prif Reoliadau. Yn ogystal, manteisir ar y cyfle i gywiro rhai mân bwyntiau drafftio yn y prif Reoliadau, ond nad ydynt yn effeithio ar weithrediad nac effaith y darpariaethau hynny.

Mae dyddiad dod i ben Rheoliadau Swyddogaethau Awdurdodau Lleol wedi'i estyn i 31 Mawrth 2021, er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r dyddiad y daw'r prif Reoliadau i ben. Manteisiwyd ar y cyfle hefyd i wneud mân ddiwygiad i reoliad 6 o'r Rheoliadau Swyddogaethau Awdurdodau Lleol. Gwneir y diwygiad o ganlyniad i wneud y prif Reoliadau, ac mae'n golygu newid cyfeiriadau at Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 i gyfeiriadau at y prif Reoliadau.

Yn olaf, mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn dirymu darpariaethau ac offerynnau sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth cyfyngiadau coronafeirws sydd bellach wedi dod i ben.

5. Ymgynghori

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y Fforwm Iechyd a Diogelwch i ofyn am eu barn ar y cynnig hwn ar gyfer Asesiad Covid penodol. Roedd hyn yn cynnwys yr undebau llafur canlynol; TUC Cymru, USDAW, UNITE, y GBM ac Unite a'r sefydliadau busnes canlynol: CBI, Ffederasiwn y Busnesau Bach a Siambrau Cymru. Yn ogystal, ceisiwyd barn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi cyfarfod â chynrychiolwyr manwerthwyr, gan gynnwys archfarchnadoedd a manwerthwyr 'cymysg' eraill, i drafod eu rôl yn ystod y pandemig. Yn gyffredinol, roeddent yn croesawu'r arferion da presennol gan nifer o fangreoedd a'r ffaith fod cydymffurfiaeth â'r canllawiau'n cael ei 'ffurfioli' drwy ei gynnwys yn y prif Reoliadau.

Wrth benderfynu ar yr angen am y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n ymwneud â chau mangreoedd ysgolion a sefydliadau addysg bellach, a manylion y cyfyngiadau a'r gofynion hynny, cynhaliodd swyddogion Llywodraeth Cymru gyfres o drafodaethau brys gyda sectorau a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys llywodraeth leol ac ysgolion. Gwnaeth y Gweinidog Addysg ddatganiad ysgrifenedig ar y mater hwn ar 4 Ionawr 2021.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac asesiadau effaith eraill

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i lunio mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd bod angen eu rhoi ar waith ar frys i fynd i'r afael â'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

Mewn perthynas â chau mangreoedd ysgolion a sefydliadau addysg bellach i ddysgwyr, mae Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ac Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u cwblhau a'u hystyried. Er ei bod yn anochel y bydd effeithiau

ar hawliau plant ac, yn benodol, ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig, bydd rhywfaint o gyfle i liniaru'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, yn enwedig i'r dysgwyr mwyaf agored i niwed drwy ganiatáu iddynt gael mynediad i fangre ysgol neu goleg, ond ni fydd yn bosibl ymdrin â'r holl effeithiau anghymesur a negyddol. Mae'r effeithiau negyddol hyn yn parhau i gael eu goddef ar sail y risg i iechyd y cyhoedd. Bydd copïau o'r asesiadau hyn yn cael eu cyhoeddi ar wefan LLYW.cymru:

https://llyw.cymru/asesiadau-o-effaith-coronafeirws

Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

19 Ionawr 2021

Annwyl Elin

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2021

Heddiw, rwyf wedi gwneud y Rheoliadau yma o dan adrannau 45B, 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 20 Ionawr 2021. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 22 Chwefror 2021 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 26 Ionawr 2021.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir



MARK DRAKEFORD

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG
GAN
LYWODRAETH CYMRU

TEITL	**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020**
DYDDIAD	**19 Ionawr 2021**
GAN	**Mark Drakeford AS, Y Prif Weinidog**

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau") wedi cael eu diwygio mewn nifer o feysydd heddiw.

Yn dilyn fy Natganiad Ysgrifenedig ar 15 Ionawr, mae'r Rheoliadau yn awr yn gosod gofynion ar fusnesau a mangreoedd i gynnal asesiad penodol o'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

Fel y nodais hefyd yr wythnos ddiwethaf, maent wedi cael eu diwygio i gryfhau'r gofynion ar fusnesau manwerthu er mwyn rhagnodi mesurau rhesymol penodol y mae'n rhaid iddynt eu cymryd.

At hynny, mae'r Rheoliadau wedi cael eu diwygio i'w gwneud yn ofynnol i berchennog ysgol neu sefydliad addysg bellach atal dysgwyr rhag mynd i fangre ysgol neu sefydliad addysg bellach o 20 Ionawr ymlaen.

Bydd y cyfyngiad yn berthnasol i bob ysgol, gan gynnwys ysgolion annibynnol a sefydliadau addysg bellach. Fodd bynnag, bydd y Rheoliadau hefyd yn darparu fel:

- y gall disgyblion/myfyrwyr fynd i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach i sefyll arholiad neu ymgymryd ag asesiad arall
- y gall disgyblion/myfyrwyr fynd i'r fangre pan fo'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach yn ystyried ei fod yn briodol iddynt wneud hynny oherwydd bod y dysgwr yn agored i niwed
- y gall disgyblion sy'n blentyn i weithiwr hanfodol fynd i fangre'r ysgol. Wrth benderfynu a yw disgybl yn blentyn i weithiwr hanfodol, rhaid i'r awdurdod lleol a pherchennog ysgol annibynnol ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ynglŷn ag adnabod plant gweithwyr hanfodol. Mae

Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi'r canllawiau canlynol: https://llyw.cymru/adnabod-plant-gweithwyr-hanfodol-canllawiau

- y gall disgyblion fynd i fangre ysgol arbennig, uned cyfeirio disgyblion, uned mewn ysgol pan fo'r uned yn cael ei chydnabod gan awdurdod lleol fel un sydd wedi ei neilltuo ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig a lle mae'r disgyblion yn cael eu haddysgu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn yr uned
- y gall disgybl sy'n ddisgybl preswyl breswylio mewn llety ym mangre'r ysgol.

Bydd gosod y gofyniad ar bob ysgol a sefydliad addysg bellach i gau eu mangreoedd i'r mwyafrif o ddysgwyr ar sail statudol yn sicrhau cysondeb ac eglurder ledled Cymru.

Yn olaf, o ganlyniad i'r diwygiadau a ddisgrifir uchod, gwnaed nifer o ddiwygiadau canlyniadol i'r Rheoliadau.

SL(5)703 – Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau technegol a chywiriadau i is-ddeddfwriaeth ddomestig ymadael â'r UE sy'n ymwneud â hadau, planhigion i'w plannu a deunyddiau atgenhedlu o ganlyniad i ymadael â'r UE. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn cadarnhau nad yw'r Rheoliadau'n gwneud unrhyw newidiadau polisi.

Daeth y Rheoliadau hyn i rym ar 30 Rhagfyr 2020 (rheoliadau 1, 3 a 5) ac yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (rheoliadau 2 a 4).

Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio diwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Mae Rheoliad 4(3)(j)(iv) o'r rheoliadau pwnc yn rhoi rheoliad newydd yn lle rheoliad 4(13)(f) o Reoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019, sy'n diwygio paragraff 10 o Atodlen 4 i Reoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012 ("Rheoliadau 2012").

Mae paragraff 10 o Atodlen 4 i Reoliadau 2012 yn ymwneud â marchnata amrywogaethau anrhestredig o hadau llysiau ac, fel y'i diwygiwyd, mae'n darparu yn is-baragraff (1) y caiff Gweinidogion Cymru, at y diben o gasglu gwybodaeth a chael profiad ymarferol yn ystod y

cyfnod tyfu, awdurdodi marchnata hadau llysiau nad ydynt wedi'u rhestru ar restr amrywogaethau Prydain Fawr, ar yr amod bod cais i'w cofnodi yn Rhestr Genedlaethol y Deyrnas Unedig neu Restr Amrywogaethau Gogledd Iwerddon wedi cael ei gyflwyno.

Mae is-baragraff (4) o'r paragraff hwnnw, fel y'i diwygiwyd, yn darparu na chaiff neb ofyn am awdurdodiad ac eithrio'r person a gyflwynodd gais am gofnodi'r amrywogaethau dan sylw yn Rhestr Genedlaethol y Deyrnas Unedig, Rhestr Amrywogaethau Gogledd Iwerddon neu restr gywerth mewn gwlad y caniatawyd cywerthedd iddi.

Nid yw'n amlwg ar unwaith pam y caiff person sy'n cyflwyno cais am gofnodi ar restr gywerth ofyn am awdurdodiad gan Weinidogion Cymru yn yr amgylchiadau hyn, o ystyried mai amod ar gyfer yr awdurdodiad hwnnw yw bod cais wedi'i gyflwyno i Restr y Deyrnas Unedig neu Restr Gogledd Iwerddon (ac nid rhestr gywerth).

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
19 Ionawr 2021

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 7(3) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn 28 niwrnod gan ddechrau ar y diwrnod y gwnaed y Rheoliadau, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2020 Rhif 1573 (Cy. 330)

YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

HADAU, CYMRU

Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio is-ddeddfwriaeth ddomestig ymadael â'r UE sy'n ymwneud â hadau, planhigion i'w plannu a deunyddiau atgenhedlu o ganlyniad i ymadael â'r UE. Mae rheoliad 2 hefyd yn mynd i'r afael â gwallau a nodwyd mewn is-ddeddfwriaeth ddomestig ymadael â'r UE.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 7(3) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn 28 niwrnod gan ddechrau ar y diwrnod y gwnaed y Rheoliadau, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2020 Rhif 1573 (Cy. 330)

YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

HADAU, CYMRU

Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Gwnaed	*15 Rhagfyr 2020*
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru	*18 Rhagfyr 2020*

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**).

Yn unol â pharagraff 4(a) o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol o ran y Rheoliadau hyn sy'n dod i rym cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(**1**) 2018 p. 16; gweler adran 20(1) am y diffiniad o "devolved authority". Diwygiwyd paragraff 21 o Atodlen 7 gan adran 41(4) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1), a pharagraff 53(2) o Atodlen 5 iddi.

Oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau hyn heb fod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad(**1**).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym fel a ganlyn—

(a) daw rheoliadau 1, 3 a 5 i rym ar 30 Rhagfyr 2020;

(b) daw rheoliadau 2 a 4 i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

2.—(1) Mae Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1—

(a) ym mharagraff (2), hepgorer ", ac eithrio rheoliadau 3 a 4,";

(b) hepgorer paragraff (3).

(3) Yn rheoliad 2—

(a) ym mharagraff (2)—

(i) yn is-baragraffau (a), (c), (d), (i), (j), (k) ac (o)—

(aa) yn yr is-baragraff (ii) newydd sydd i'w fewnosod gan bob un o'r is-baragraffau hynny, ar ôl "Tiriogaeth Ddibynnol y Goron" mewnosoder "neu wlad y caniatawyd cywerthedd iddi";

(bb) hepgorer yr is-baragraff (iii) newydd sydd i'w fewnosod gan bob un o'r is-baragraffau hynny;

(ii) yn is-baragraff (b), yn lle "yn unol â chytundeb masnach y Swistir" rhodder "o "(neu, mewn perthynas â" hyd at y diwedd";

(**1**) Mae'r cyfeiriadau yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**2**) O.S. 2019/738 (Cy. 141), a ddiwygiwyd yn rhagolygol gan O.S. 2019/1281 (Cy. 225), rheoliad 5: mae'r rheoliad hwnnw'n cael ei hepgor gan y Rheoliadau hyn.

(iii) yn is-baragraff (d), yn lle'r is-baragraff (i) newydd sydd i'w fewnosod gan yr is-baragraff hwnnw rhodder—

"(i) yn achos tatws hadyd a gynhyrchir yn Lloegr, Ran 1 o Atodlen 2 i Reoliadau Tatws Hadyd (Lloegr) 2015(**1**);";

(iv) yn is-baragraffau (e), (f) ac (n), yn lle'r geiriau cyn y diffiniadau newydd sydd i'w mewnosod gan yr is-baragraffau hynny rhodder "ym mharagraff (1), yn y lle priodol mewnosoder—";

(v) yn is-baragraff (g), yn lle'r diffiniad newydd o "gradd" sydd i'w fewnosod gan yr is-baragraff hwnnw rhodder—

"mae "gradd" ("*grade*") yn cynnwys gradd Prydain Fawr;";

(vi) yn lle is-baragraff (h) rhodder—

"(h) hepgorer y diffiniad o "Rhestr Genedlaethol";";

(vii) yn is-baragraff (l), yn y diffiniad newydd o "tatws hadyd o amrywogaeth gadwraeth" sydd i'w fewnosod gan yr is-baragraff hwnnw, yn lle "y Rhestr Genedlaethol" rhodder "Rhestr Amrywogaethau Prydain Fawr";

(viii) yn is-baragraff (m), yn lle "ym mharagraff (b) hepgorer "ac eithrio'r Deyrnas Unedig"" rhodder "hepgorer paragraffau (b) ac (c) ac, ar y diwedd mewnosoder—

"neu

(b) tatws hadyd a gynhyrchir mewn gwlad y caniatawyd cywerthedd iddi;"";

(ix) yn is-baragraff (p), yn y diffiniad newydd o "gradd yr Undeb" sydd i'w fewnosod gan yr is-baragraff hwnnw, yn lle "mewn Aelod-wladwriaeth neu yn y Swistir" rhodder "yng Ngogledd Iwerddon";

(x) yn lle is-baragraff (q) rhodder—

"(q) ym mharagraff (1), yn y lleoedd priodol mewnosoder—

"ystyr "gradd gyfatebol" ("*equivalent grade*") yw—

(a) o ran Gogledd Iwerddon, radd Undeb gyfatebol;

(b) o ran un o Diriogaethau Dibynnol y Goron neu wlad y caniatawyd

(**1**) O.S. 2015/1953, a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/288, O.S. 2019/472, O.S. 2019/1517 ac a ddiwygiwyd yn rhagolygol gan O.S. 2019/809.

cywerthedd iddi, radd a gydnabyddir gan Weinidogion Cymru fel un sy'n cyfateb i un o raddau Prydain Fawr;";

"ystyr "gradd Prydain Fawr" ("*GB grade*") yw—

(a) o ran tatws hadyd a gynhyrchir yng Nghymru, gradd Prydain Fawr a bennir yn unol ag Atodlen 4 wrth ardystio, sef—

(i) yn achos tatws hadyd cyn-sylfaenol, gradd PBTC Prydain Fawr neu radd PB Prydain Fawr;

(ii) yn achos tatws hadyd sylfaenol, gradd S Prydain Fawr, gradd SE Prydain Fawr neu radd E Prydain Fawr;

(iii) yn achos tatws hadyd ardystiedig, gradd A Prydain Fawr neu radd B Prydain Fawr;

(b) o ran tatws hadyd a gynhyrchir yn Lloegr neu'r Alban, gradd Prydain Fawr a bennir yn unol â'r rheoliadau tatws hadyd perthnasol;";

"ystyr "gradd Undeb gyfatebol" ("*equivalent Union grade*") yw—

(a) o ran "Gradd PBTC Prydain Fawr", "gradd PBTC yr Undeb";

(b) o ran "Gradd PB Prydain Fawr", "gradd PB yr Undeb";

(c) o ran "Gradd S Prydain Fawr", "gradd S yr Undeb";

(d) o ran "Gradd SE Prydain Fawr", "gradd SE yr Undeb";

(e) o ran "Gradd E Prydain Fawr", "gradd E yr Undeb";

(f) o ran "Gradd A Prydain Fawr", "gradd A yr Undeb";

(g) o ran "Gradd B Prydain Fawr", "gradd B yr Undeb";";

"ystyr "gwlad y caniatawyd cywerthedd iddi" ("*country granted equivalence*") yw gwlad y mae Gweinidogion Cymru wedi asesu bod tatws hadyd o'r wlad honno yn cael eu cynhyrchu o dan amodau sy'n cyfateb i ofynion y Rheoliadau hyn;";

"ystyr "Rhestr Amrywogaethau Prydain Fawr" ("*GB Variety List*") yw rhestr o amrywogaethau tatws a baratowyd ac a gyhoeddwyd yn unol â rheoliad 3 o'r Rheoliadau Rhestrau Cenedlaethol;";";

(xi) yn lle is-baragraff (r) rhodder—

"(r) hepgorer paragraff (2);";

(b) yn lle paragraff (3) rhodder—

"(3) Yn rheoliad 4, yn lle "i'r Undeb Ewropeaidd" rhodder "i Brydain Fawr".";

(c) ym mharagraff (4)—

(i) yn y testun Saesneg, ar ôl "accordance with", yn y lle cyntaf y mae'n digwydd, mewnosoder "to the end substitute";

(ii) yn y paragraff (ii) newydd, ar ôl "Tiriogaeth Ddibynnol y Goron" mewnosoder "neu wlad y caniatawyd cywerthedd iddi";

(iii) hepgorer y paragraff (iii) newydd sydd i'w fewnosod gan y paragraff hwnnw;

(d) ym mharagraff (5)—

(i) o flaen is-baragraff (a) mewnosoder—

"(za) ym mharagraff (1)(a), yn lle "y Rhestr Genedlaethol" rhodder "Rhestr Amrywogaethau Prydain Fawr";";

(ii) yn is-baragraff (b), yn y paragraff (3A) newydd, yn lle "the United Kingdom", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "Great Britain";

(e) ym mharagraff (6), yn yr is-baragraff (c) newydd sydd i'w fewnosod gan y paragraff hwnnw, yn lle "y diwrnod ymadael" rhodder "diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu";

(f) ym mharagraff (7)—

(i) yn is-baragraff (a)—

(aa) ym mharagraff (i), yn lle "yn y Deyrnas Unedig" rhodder "ym Mhrydain Fawr";

(bb) ym mharagraff (ii), yn yr is-baragraff (iii) newydd sydd i'w fewnosod gan y paragraff hwnnw, yn lle "y diwrnod ymadael" rhodder "diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu";

(ii) yn lle is-baragraff (b) rhodder—

"(b) ym mharagraff (6)(b), yn lle "mewn Rhestr Genedlaethol neu yn y Catalog Cyffredin" rhodder "yn Rhestr Amrywogaethau Prydain Fawr";";

(g) ym mharagraffau (8) a (9)—

(i) yn y paragraff (ii) newydd sydd i'w fewnosod gan y paragraffau hynny, ar ôl "Tiriogaeth Ddibynnol y Goron" mewnosoder "neu wlad y caniatawyd cywerthedd iddi";

(ii) hepgorer y paragraff (iii) newydd sydd i'w fewnosod gan y paragraffau hynny;

(h) yn lle paragraff (10) rhodder—

"(10) Yn rheoliad 16 ac yn y pennawd, yn lle "i'r Undeb Ewropeaidd" rhodder "i Ynysoedd Prydain".";

(i) ym mharagraff (11), yn y rheoliad 23A newydd a'i bennawd, sydd i'w mewnosod gan y paragraff hwnnw—

(i) yn lle "ar y diwrnod ymadael" rhodder "ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu", yn lle "cyn y diwrnod ymadael" rhodder "cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu" ac yn lle "y mae'r diwrnod ymadael" rhodder "y mae diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu";

(ii) ar ôl "label swyddogol", yn yr ail le y mae'n digwydd, mewnosoder "ar gyfer tatws hadyd sylfaenol neu datws hadyd ardystiedig";

(j) yn lle paragraff (12) rhodder—

"(12) Yn Atodlen 1—

(a) ym mharagraff 3(a), yn lle "mewn Rhestr Genedlaethol neu yn y Catalog Cyffredin" rhodder "yn Rhestr Amrywogaethau Prydain Fawr";

(b) ym mharagraffau 5, 6 a 10, yn lle "yr Undeb", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "Prydain Fawr";

(c) ym mharagraff 8(b)—

(i) yn y testun Saesneg, yn lle "Union", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "GB";

(ii) yn y testun Cymraeg—

(aa) ym mharagraff (i), ar ôl "gradd S" mewnosoder "Prydain Fawr";

(bb) ym mharagraff (ii), ar ôl "gradd SE" mewnosoder "Prydain Fawr"; ac

(cc) ym mharagraff (iii), ar ôl "gradd E" mewnosoder "Prydain Fawr".";

(k) ym mharagraff (13)—

(i) yn is-baragraff (b)(i), yn lle "UK" rhodder "GB";

(ii) yn lle is-baragraff (c) rhodder—

"(c) ym mharagraff 8(b)—

(i) ym mharagraff (i), yn lle "Aelod-wladwriaeth" rhodder "wlad";

(ii) ym mharagraff (vi), yn lle "Restr Genedlaethol" rhodder "Restr Amrywogaethau Prydain Fawr";";

(iii) yn is-baragraffau (d)(ii) ac (e), yn lle "UK" rhodder "GB", ac yn lle "y DU" rhodder "Prydain Fawr";

(l) ym mharagraff (14)(a) a (b), yn lle "y DU" rhodder "Prydain Fawr";

(m) ym mharagraff (16)—

(i) yn is-baragraff (a), yn lle "yn lle "Undeb" rhodder "Deyrnas Unedig"" rhodder "yn lle "un o raddau'r Undeb" rhodder "un o raddau Prydain Fawr"";

(ii) yn is-baragraff (b)(i), yn lle "y DU" rhodder "Prydain Fawr";

(iii) yn lle is-baragraff (b)(ii) rhodder—

"(ii) yn y rhes sy'n ymwneud â gradd "PB" yng ngholofn 2, ym mharagraff (1)(b), yn lle "gradd PB yr Undeb" rhodder "gradd PB Prydain Fawr neu radd gyfatebol";";

(n) ym mharagraff (17)—

(i) yn is-baragraff (a), yn lle "yn lle "Undeb" rhodder "Deyrnas Unedig"" rhodder "yn lle "un o raddau'r Undeb" rhodder "un o raddau Prydain Fawr"";

(ii) yn is-baragraff (b)(i), yn lle "y DU" rhodder "Prydain Fawr";

(iii) yn lle is-baragraff (b)(ii) i (iv) rhodder—

"(ii) yn y rhes sy'n ymwneud â gradd "S", yng ngholofn 2, ym mharagraff (1)(a), yn lle "radd S yr Undeb" rhodder "radd S Prydain Fawr neu radd gyfatebol";

(iii) yn y rhes sy'n ymwneud â gradd "SE", yng ngholofn 2, ym mharagraff (1)(a), yn lle "radd S yr Undeb neu'n radd SE yr Undeb" rhodder "radd S Prydain Fawr, gradd SE Prydain Fawr neu radd gyfatebol";

57. The Court should make the declaration sought to ensure that this incorrect reading of the interaction between UKIMA and GoWA does not have a chilling effect on the operation of devolved powers. If Parliament intended to amend constitutional devolution legislation in such important respects, it should have done so by express language. The principle of legality means that Parliament cannot lawfully achieve by implication through schedule 7B of GoWA what it could have done expressly through amending the ambit of schedule 7A: see *UK Withdrawal from the European Union (Legal Continuity) (Scotland) Bill* [2018] UKSC 64 at §51. UKIMA itself recognises this and amends schedule 7A of GoWA in respect of harmful subsidies; s52(2) of UKIMA.

58. It is well-established that; (i) GoWA is a constitutional enactment; and (ii) constitutional enactments cannot be impliedly amended or repealed: see *Thoburn v Sunderland City Council* [2002] EHWC 195 (Admin) per Laws LJ at §§ 62 – 63; *AXA General Insurance Ltd v HM Advocate* [2011] UKSC 46 per Lord Reid at §153; *H v Lord Advocate* [2013] 1 AC 413 at §30; *R (HS2 Action Alliance) v Secretary of State for Transport* [2014] UKSC 3 at §207; *R (Miller) v Secretary of State for Exiting the European Union* [2018] AC 61 at §66. To the extent that ss 2(3) and 54(2) of UKIMA purport to reduce the Senedd's competence, they are contrary to the principle of legality and inoperable.

59. The Defendant's position is that the Senedd can continue to legislate in all devolved areas; his Ministers said so in the White Paper, in Parliament and in pre-action correspondence. So he should agree to the Court making it clear that the effect of UKIMA is not to re-reserve policy making for food standards or environmental protection measures by a sidewind and that the mutual recognition principle in s2 of UKIMA cannot be read to have that effect, notwithstanding para 5 of schedule 7B of GoWA.

Issue 2 – Devolved competence cannot be cut down by secondary legislation

60. Further, and in any event, the regulation-making provisions of UKIMA must be read down to the extent that they could otherwise be used to diminish the ambit of the powers of the devolved legislatures without express Parliamentary authority.

61. Sections 6(5), 8(7), 10(2), 18(2) and 21(8) of UKIMA, read together with s56(2)(a), purport to give the Defendant wide and unconstrained powers to amend the scope of the principles of mutual recognition and non-discrimination in substantive ways, with limited Parliamentary scrutiny.

62. As described above, s54(2) of UKIMA states on its face that UKIMA is a protected enactment for the purposes of GoWA. If that were read in a wide and literal way, it would mean that the Minister could alter the scope of devolved competence by secondary legislation. If that were the right reading, *any* amendments to the ambit of UKIMA made by the Minister using his regulation-making powers would thereafter prevent the Senedd from being competent to act in any way which might modify the operation of UKIMA as so modified. In other words, future regulations made under UKIMA could have far-reaching – but obviously uncertain - consequential effects on the scope of the Senedd's legislative competence because any changes to the ambit of UKIMA would be protected from modification.

63. Still further, s56(2)(a) of UKIMA would, on its face, give the executive an unfettered power to amend any other legislation whatsoever, which would include GoWA.

64. The Court is asked to declare that the scope of the regulation-making powers in UKIMA cannot be so broad so as to grant the *executive* wide and unrestricted powers to amend the ambit of the constitutional settlement subject to inadequate Parliamentary scrutiny. That would be contrary to the rule of law.

65. The long-established principles of legality and certainty require clear and express legislative language to be used to have the effect of amending constitutional principles (*a fortiori* constitutional legislation): *R v Secretary of State for the Home Department, Ex p Simms* [2000] 2 AC 115 per Lord Hoffman at p131. Secondary legislation must be read with respect for the concept of the separation of powers and Parliamentary supremacy over the executive: see *R (Public Law Project) v Lord Chancellor* [2016] UKSC 39 at §§ 23 – 28.

66. Section 107(5) of GoWA reserves the power of *Parliament* to make laws for Wales. It does not reserve the power of the *executive* to make laws for Wales, or to decide the scope of devolved competence, and it cannot be interpreted as including a power for Parliament to delegate its power of constitutional amendment to a Minister.

67. Accordingly, the principles of legality and certainty in combination with fundamental constitutional values require the Henry VIII clauses in UKIMA to be given a narrow construction so that they may only be used to effect incidental and consequential amendments; and for it to be accepted that they cannot be used to make any substantive amendment to UKIMA or GoWA.

68. Other recent Henry VIII powers recognise these principles and are constrained in their scope so that they may not amend constitutional legislation, including GoWA and the Human Rights Act 1998: see s8(7) of the European Union (Withdrawal) Act 2018 and s31(4) the European Union (Future Relationship) Act 2020. The powers in UKIMA should be limited by the Court in the same way.

The declarations sought are neither academic nor premature

69. The Defendant seeks to argue in his response to the pre-action letter that the declarations sought are in some way abstract and/or hypothetical, and should await some future attempt by the Senedd to legislate. This assertion is misconceived. The application for the declarations sought is neither academic nor premature.

70. The Defendant, properly, does not suggest that the Court has no jurisdiction to make the declarations sought. It is well established that the Court has a discretion to make an advisory declaration where there is good reason in the public interest and/or a real practical purpose would be achieved: see *R (Williams) v Secretary of State for the Home Department* [2015] EWHC 1268 (Admin) per Hickinbottom J at §55; *R (Yalland) v Secretary of State for Exiting the European Union* [2017] EWHC 630 (Admin) per Lloyd-Jones LJ at §24. That is also true in a case concerning the interpretation of primary legislation: see *Jackson v HM Attorney General* [2005] UKHL 56 per Lord Bingham at §§ 2 and 27 (where a declaration of invalidity was sought in relation to Hunting Act 2004 upon it receiving Royal Assent).

71. The declarations sought affect the operation of democratic devolved government in Wales (and indeed in the other nations of the United Kingdom) and the nature of the

Senedd's powers in ways which may affect the scope of the statements which political parties can properly make as to the scope of their legislative ambitions in the forthcoming Senedd elections in May 2021.

72. It is plainly in the public interest for the Court to provide clarity to the Welsh Government (and, by extension, all of the devolved governments) now as to what they are permitted to achieve through their legislative programmes. It would cause legislative and constitutional uncertainty if a dispute had to be resolved by the Supreme Court every time the Welsh Government sought to introduce legislation in relation to devolved matters which potentially affected the operation of the internal market. Moreover, the proper legal interpretation of the ambit of the devolution settlement is a matter of constitutional importance.

73. Further, the suggestion made in the response to the pre-action letter that the interaction of schedule 7A and paragraph 5 of schedule 7B of GoWA should await a reference under s112 of GoWA is misconceived. An application for judicial review must be brought promptly and in any event within three months of grounds first arising (i.e. UKIMA receiving Royal Assent on 17 December 2020). So, this is the only point at which the Court can give a declaration in relation to issue 1 (implied repeal).

74. This ground would simply not arise on a reference of a Welsh bill to the Supreme Court under s112 of GoWA. On such a reference, the sole question for the Supreme Court is whether the bill is within the legislative competence of the Senedd by reference to the statutory scheme of GoWA itself. The Claimant would not be permitted to rely on common law grounds of challenge concerning the proper constitutional interpretation of the separate legislation (UKIMA): see *UK Withdrawal from the European Union (Legal Continuity) (Scotland) Bill* [2018] UKSC 64 at §§ 26 and 35. Thus, the Claimant would not be permitted on such a reference to seek the declaration sought in these proceedings that the purported protection of UKIMA in paragraph 5 of schedule 7B should be read down in accordance with the principle of legality. That is a point of administrative law which must be determined on an application for judicial review.

75. Finally, the declaration sought in relation to issue 2 is a point of principle which does not turn on a specific set of facts. The specific context in which the executive may in future seek to exercise its regulation-making powers under UKIMA is immaterial to this point of principle as to their proper constitutional scope.

Venue

76. The Court is requested to hear this application in Cardiff; CPR PD54D §5.2(10). The Claimant is the Counsel General for Wales, based in Cardiff, and the applications raises devolution issues of importance to the people of Wales. Given the constitutional importance of this matter, it ought to be heard by a Divisional Court.

Timing & Directions

77. As noted, the outcome of this application is material to the scope of devolved policy areas and therefore the matters upon which all political parties can properly campaign in the forthcoming elections to the Senedd in May 2021. This application is therefore one which ought to be expedited.

78. The Claimant therefore respectfully invites the Court to amend the usual directions as to timetable, with view to enabling the substantive hearing to take place before the end of the Hilary term:

    a. Acknowledgement of service to be lodged and served within 21 days (9 February 2021);
    b. Permission decision on papers within 7 days (16 February 2021);
    c. Detailed grounds of defence and any evidence within 21 days (9 March 2021);
    d. Any reply and application to rely on evidence in reply within 7 days (16 March 2021);
    e. Claimant's skeleton argument also by 16 March 2021;
    f. Agreed bundle by 19 March 2021;

g. Defendant's skeleton argument by 23 March 2021;
h. A further copy of the Claimant's skeleton argument, amended to include bundle references, also by 23 March 2021;
i. Agreed bundle of authorities two days prior to the date of the hearing;
j. Hearing for two days between 26 and 31 March 2021.

Conclusion

79. The declarations sought are plainly properly arguable ones and the application raises issues of considerable constitutional and democratic significance, in relation to which declarations would be of real practical importance. It is not premature because it affects the day-to-day operation of the Welsh Government and the ambit of the Senedd's power to legislate for Wales.

80. The Claimant respectfully invites the Court:

a. to grant permission;
b. to expedite the hearing of the application in accordance with the timetable suggested at §78 above; and
c. (at the substantive hearing) to make the declarations sought at §3 of these grounds.

Helen Mountfield QC
Christian J Howells
Mark Greaves
18 January 2021

Law Commission
Reforming the law

1st Floor, Tower, Post Point 1.52, 52 Queen Anne's Gate, London SW1H 9AG
(access via 102 Petty France)

t 020 3334 0200
e DevolvedTribunalsWales@lawcommission.gov.uk

20 January 2021

Dear Mr Antoniw,

May I begin by wishing you and the people of Wales a happy new year.

We were very pleased that the Legislation, Justice and Constitution Committee took note, at its meeting last week, of the publication of our consultation paper on the future of devolved tribunals in Wales. The paper has opened a consultation period running until 19 March.

The operation of the devolved tribunals seems to us to be relevant to the Committee's inquiry into making justice work in Wales. We have always valued our relationship with the Committee, and so I am writing to assure you that if the Committee have any questions about the contents of the consultation paper, or our project more generally, we would be very willing to meet with you. That could involve giving evidence formally, or providing a more informal briefing session to enable Committee members to familiarise themselves with the contents of the consultation paper. Please let us know if you would like to set up a meeting.

Yours sincerely,

Nicholas Paines

Nicholas Paines QC
Commissioner for Public Law and the Law in Wales

Jeremy Miles AS/MS
Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd, CF99 1SN

SeneddDCC@senedd.cymru

20 Ionawr 2021

Annwyl Mick,

Rwy'n ddiolchgar am ystyriaeth eich Pwyllgor o Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2021 ac am eich adroddiad. Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu fy mod i nawr wedi gosod y Gorchymyn drafft ac y bydd yn destun dadl ar 2 Chwefror.

Fel ymateb i'r argymhellion yn eich adroddiad:

Argymhelliad 1. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol egluro ei sylwadau ynghylch yr angen am Orchymyn pellach yn y Cyfrin Gyngor o ganlyniad i'r cyfnod pontio.

Derbyniwyd. Mae Llywodraeth Cymru mewn trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch cyflwyno Gorchymyn pellach yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i wneud darpariaeth gyfatebol ar gyfer swyddogaethau cydredol o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas y Dyfodol) 2020 â'r hyn a wnaed ar gyfer deddfwriaeth arall mewn perthynas ag ymadael â'r UE yn y Gorchymyn yr adroddwyd arno gennych.

Argymhelliad 2. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ddatblygiadau yn ymwneud â swyddogaethau cydredol a chydredol plws sydd wedi codi neu sy'n codi yn y dyfodol o ganlyniad i ddeddfwriaeth y DU.

Derbyniwyd. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.

Yn gywir

Jeremy Miles AS/MS
Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Lesley Griffiths AS
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

23 Rhagfyr 2020

Annwyl Lesley

Bil yr Amgylchedd

Diolch eto i chi am eich **llythyr dyddiedig 28 Awst 2020**, lle gwnaethoch ymateb i'r argymhellion a gyflwynwyd i chi yn ein **hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Amgylchedd y DU** (adroddiad cyntaf).

Yn ein cyfarfod ar 14 Rhagfyr 2020, gwnaethom ystyried y **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2)** a osodwyd gennych gerbron y Senedd ar 4 Rhagfyr 2020.

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Busnes wedi **pennu dyddiad cau ar ein cyfer, ar gyfer adrodd**, sef 4 Chwefror 2021 ar gyfer Memorandwm Rhif 2. O ystyried yr amser cymharol fyr sydd ar gael i'r Pwyllgor roi ystyriaeth, byddai'n ddefnyddiol pe gallech ymateb i'r cwestiynau isod.

1. Nodwn eich bod yn ystyried bod cymal 107 newydd ac Atodlen 16 newydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. O ystyried y farn hon, a wnewch chi ddweud a ydych chi wedi:
    a. gofyn i Lywodraeth y DU gyflwyno gwelliant i'r Bil i roi'r un pwerau i Weinidogion Cymru â'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Chymru?
    b. mynd ar drywydd – gyda Llywodraeth y DU – unrhyw newidiadau i'r Bil i sicrhau cyfranogiad Gweinidogion Cymru wrth wneud rheoliadau sy'n ymwneud â Chymru o dan Atodlen 16?

2. A allwch chi ymhelaethu ar eich rheswm dros ystyried bod cymal 107 newydd ac Atodlen 16 newydd yn ymwneud â materion o fewn cymhwysedd datganoledig pan – yn ôl DEFRA – eu bod yn ymwneud â'r cymal cadw yn adran C1, paragraff 65 o Atodlen 7A i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (creu, gweithredu, rheoleiddio a diddymu mathau o gymdeithas fusnes)?

3. A oes trafodaethau parhaus rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i geisio datrys yr anghydfod o ran cymal 107 newydd ac Atodlen 16 newydd? Os felly, rhowch fanylion trafodaethau o'r fath.

4. A allwch chi roi copïau o bob gohebiaeth i ni rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth DU ynghylch adran 107 ac Atodlen 16 o'r Bil (gan gynnwys unrhyw ymatebion i'ch llythyrau dyddiedig 8 Medi a 4 Rhagfyr 2020)?

5. Os na ellir dod i gytundeb ar yr anghydfod ynghylch cymal 107 newydd ac Atodlen 16 newydd, pa gamau pellach ydych chi'n bwriadu eu cymryd?

6. Mewn perthynas â'r pwerau cydredol plws yn y Bil, nodwn nad yw'r Mesur Amgylchedd yn cael ei gwmpasu gan Orchymyn 2021, Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) a osodwyd gerbron Senedd Cymru ar 10 Rhagfyr 2020. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf o ran y modd y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â'r pwerau cydredol plws yn y Bil?

Rydym yn bwriadu mynd i'r afael â phryderon sy'n codi yn sgil eich hymateb, dyddiedig 28 Awst 2020, yn ein hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol. Fodd bynnag, hoffem godi un mater gyda chi ynghylch yr ymateb a roesoch i argymhelliad 20, oedd yn gofyn yn rhannol i chi esbonio pam nad oeddech wedi trafod cymal 81 gyda Gweinidogion y DU. Yn ôl eich ymateb, “mae ymgysylltu ar lefel Swyddogol wedi bod yn ddigon i sicrhau cytundeb” ar gymalau 81 ac 82.

7. A wnewch chi egluro, mewn perthynas â'ch ymateb i'r pwynt bwled cyntaf o argymhelliad 20:

    - union natur y cytundeb rhwng swyddogion, h.y. beth sydd wedi'i gytuno, a beth yw statws y cytundeb?
    - a yw Gweinidogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi llofnodi'r cytundeb rhwng swyddogion, a chynnwys y cytundeb?
    - pam yr ystyriwyd ei bod yn briodol peidio â thrafod pŵer cydredol plws gyda Gweinidogion y DU?

Byddem yn ddiolchgar petai eich ymateb yn dod i law heb fod yn hwyrach na 13 Ionawr 2021.

Yn gywir

Mick Antoniw AS
Cadeirydd Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English

Lesley Griffiths MS/AS
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau, Cyfiawnder a Chyfansoddiad

28 Awst 2020

Annwyl Mick

Adroddiad y Pwyllgor Deddfau, Cyfiawnder a Chyfansoddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU

Diolch am ddarparu copi o adroddiad ac argymhellion y Pwyllgor Deddfau, Cyfiawnder a Chyfansoddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU.

Gweler ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yr adroddiad yn Atodiad A.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y sefyllfa bresennol gyda Senedd y DU a Senedd Cymru yn ystyried y Bil. Roedd y Bil yn cael ei ystyried gan bwyllgor bil cyhoeddus yn Nhŷ'r Cyffredin ond ataliwyd cyfarfodydd y Pwyllgor ar 18 Mawrth hyd nes y clywir yn wahanol. Bydd y Pwyllgor yn awr yn cyflwyno adroddiad erbyn dydd Mawrth 29 Medi. Ni chafwyd yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pryd y bydd craffu seneddol ar y Bil yn debygol o ailddechrau.

O ystyried yr ansicrwydd yn amserlen Bil y DU, nid oes dadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol wedi'i threfnu ar gyfer y Senedd ar hyn o bryd. Disgwyliaf yn awr i hyn ddigwydd ar ôl toriad yr haf.

Cofion

Lesley Griffiths

Lesley Griffiths MS/AS
Gweinidog yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Atodiad A

Ymatebion Llywodraeth Cymru i Argymhellion y Pwyllgor Deddfau, Cyfiawnder a Chyfansoddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU

Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
Argymhelliad 1: Dylai'r Gweinidog ymateb i'r holl argymhellion yn yr adroddiad hwn fel mater o frys ac mewn da bryd cyn i Lywodraeth Cymru gyflwyno'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol perthnasol.	**Derbyn** **Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.
Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog: ▪ ddatgan yn glir pa gymalau o Fil y DU sydd mewn meysydd polisi sydd â fframweithiau cyffredin a nodwyd; ▪ sut mae'r cymalau hynny'n ymwneud â'r fframweithiau cyffredin arfaethedig perthnasol, yn llawn neu'n rhannol; ▪ ddatgan pryd y bydd fframwaith cyffredin yn y meysydd polisi hynny'n cael ei gyflwyno ac yn nodi'r mecanweithiau ar gyfer ei gyflawni.	**Derbyn** Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau ar gyfer rheoleiddio cemegion a gwastraff. Dau faes polisi yw'r rhain lle mae fframweithiau'n cael eu datblygu, sef y Fframwaith Rheoleiddio Cemegion (gan gynnwys Plaladdwyr) a'r Fframwaith Gwastraff ac Adnoddau. Nid yw'r Bil yn darparu sail ddeddfwriaethol i sefydlu'r fframweithiau hyn. Mae'r fframweithiau'n cael eu datblygu ar hyn o bryd ar y sail y byddant yn anneddfwriaethol eu natur, sy'n debygol o gael eu hategu gan Goncordatau Gweinidogol. Ar ôl eu gweithredu, gall y fframweithiau ddarparu strwythurau priodol i'r pedair llywodraeth drafod datblygu polisi a deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r meysydd fframwaith hynny. Er enghraifft, drwy grwpiau rhynglywodraethol a sefydlwyd o dan y fframweithiau. Mae trafodaethau'n parhau rhwng y pedair llywodraeth i ddatblygu'r ddwy fframwaith hyn. Yn benodol, mae gwaith yn mynd rhagddo ar Gytundebau Amlinellol drafft y Fframwaith sy'n nodi'r trefniadau gwneud penderfyniadau a llywodraethu arfaethedig. Erbyn diwedd 2020 bydd gan y fframweithiau hyn Gytundeb Amlinellol ar gyfer y Fframwaith ar waith, sydd wedi cael cadarnhad dros dro gan Weinidogion, ac sy'n weithredol ar ffurf ddrafft. **Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad 3: Dylai'r Gweinidog nodi'n glir, a chydag esboniad priodol, pa gymalau o Fil y DU, fel y maent yn gymwys i Gymru: ✦ sydd yn angenrheidiol i fodloni rhwymedigaethau cyfreithiol sy'n deillio o ymadawiad y DU o'r UE; ✦ sydd yn gysylltiedig ag ymadawiad y DU o'r UE ond nid oes eu hangen i fodloni rhwymedigaethau cyfreithiol	**Derbyn** Nid oes angen yr un o'r cymalau yn y Bil, fel y maent yn gymwys i Gymru, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol sy'n deillio o ymadawiad y DU o'r UE Mae'r cymalau canlynol yn gysylltiedig â ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd ond nid oes eu hangen i fodloni rhwymedigaethau cyfreithiol. <u>Rhan 3</u> Cymal 52 ac Atodlen 9 - O dan Erthygl 4 o Gyfarwyddeb Plastig Defnydd Sengl (CYFARWYDDYD (EU) 2019/904 yr UE), mae rhwymedigaeth ar Aelod-wladwriaethau i sicrhau gostyngiad 'sylweddol a pharhaus' yn nifer y cwpanau plastig untro ar gyfer diodydd a chynwysyddion bwyd. Nid yw'r Erthygl yn nodi sut y dylid cyflawni'r gostyngiad hwn, ond mae mecanweithiau awgrymedig yn cynnwys cyflwyno taliadau ariannol neu ardollau. Mae'r tâl am fagiau siopa untro wedi dangos effeithiolrwydd defnyddio'r dull hwn. Er bod y DU wedi pleidleisio i adael yr UE pan gyflwynwyd y Gyfarwyddeb, roedd ansicrwydd parhaus ar adeg ein rhwymedigaethau yn y dyfodol a manylion unrhyw gytundeb posibl â'r UE. Er gwaethaf hyn, cefnogwyd nod y Gyfarwyddeb o leihau effaith amgylcheddol plastigau untro gan Lywodraeth Cymru ac roedd yn adlewyrchu ein huchelgeisiau o symud Cymru tuag at economi gylchol. Ar y sail hon, penderfynwyd i Weinidogion Cymru geisio pwerau codi tâl ym Mesur Amgylchedd y DU i'n galluogi i gynnal cydraddoldeb ag aelod-wladwriaethau eraill yr UE ac i ganiatáu cyflwyno rheoliadau'n amserol yn absenoldeb Bil Cymreig addas. Cymal 57 – Gwastraff peryglus: Gwnaed Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Mae'r Cymal hwn yn darparu pŵer i ganiatáu i Weinidogion Cymru barhau i allu diwygio neu ddisodli Rheoliadau 2005 er mwyn sicrhau bod y modd y caiff gwastraff peryglus ei reoleiddio yn atal niwed sylweddol i'r amgylchedd ac iechyd pobl. Cymal 66 – Hysbysiadau Cosb Benodedig: Mae angen y pŵer hwn gan nad oes pŵer yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i ddiwygio lefel y SSNs sy'n ymwneud â thipio anghyfreithlon a dyletswydd gofal deiliaid tai. Yn y gorffennol, gwnaed diwygiadau o'r fath o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd, sydd bellach wedi'i diddymu ac na ellir ei ddefnyddio ar ôl diwedd y Cyfnod Gweithredu. Heb Gymal 66 ni fydd Gweinidogion Cymru yn gallu diwygio'r cosbau presennol am yr Hysbysiadau Cosb Benodedig sy'n ymwneud â thipio anghyfreithlon a dyletswydd gofal deiliaid tai. <u>Rhan 8</u>

	Mae cymal 125 ac Atodlen 19 (REACH) yn gysylltiedig â ymadawiad y DU o'r UE, ac ystyrir bod angen galluogi Gweinidogion i ddiweddaru trefn REACH y DU/PRYDAIN FAWR (gan gynnwys adlewyrchu newidiadau i REACH yr UE lle y bo'n briodol) ar ôl diwedd y cyfnod gweithredu. **Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.
Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog nodi'n glir pa gymalau o Fil y DU fel y maent yn gymwys i Gymru sydd ddim yn dod o dan argymhelliad 3.	**Derbyn** Nid yw'r cymalau canlynol, fel y maent yn gymwys i Gymru, wedi'u cynnwys yn argymhelliad 3: <u>Rhan 1</u> Cymal 19 - Datganiadau am Filiau sy'n cynnwys cyfraith amgylcheddol newydd a Chymal 43 - Ystyr cyfraith amgylcheddol (fel y mae'n ymwneud â chymal 19). <u>Rhan 3</u> Cymal 47 ac Atodlen 4 – Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Cymal 48 ac Atodlen 5 – Costau Gwaredu Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Cymalau 49 – 51 – Effeithlonrwydd adnoddau Cymal 55: Olrhain Gwastraff Electronig Cymal 60 – Rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 Cymal 61 – Pwerau i wneud cynlluniau codi tâl Cymal 63 ac Atodlen 10 – Pwerau Gorfodi Cymal 65 – Gorfodi Sbwriel1 Cymal 67 – Rheoleiddio Gweithgareddau Llygredig <u>Rhan 4</u> Cymal 69 – Rheoli Ansawdd Aer Lleol Cymal 70 – Ardaloedd Rheoli Mwg <u>Rhan 5</u> Cymalau 75 a 76 – Cynlluniau a chynigion Cymal 77 – Pŵer yr Awdurdod i fynnu gwybodaeth Cymal 79 – Cyflwyno dogfennau'n electronig Cymal 81 – Pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol ar Ansawdd Dŵr Cymal 82 – Pwerau Ansawdd Dŵr Gweinidogion Cymru Cymal 85 – Dehongli Ansawdd Dŵr Cymalau 87 – 89 – Draenio tir **Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.
Argymhelliad 5.	**Derbyn**

Dylai'r Gweinidog egluro pam yr oedd angen cynnwys y cymalau a nodwyd yn argymhelliad 4 ym Mil y DU, yn hytrach nag o fewn Bil Cymreig yn y Chweched Senedd	Nododd y cyn Brif Weinidog y meini prawf lle byddai'n dderbyniol defnyddio Bil y DU i ddatblygu polisi Llywodraeth Cymru. Y rhain o hyd yw'r dull polisi a ddefnyddir wrth bennu priodoldeb defnyddio Biliau'r DU. Mae'r pwerau y gofynnir amdanynt ar gyfer Gweinidogion Cymru ym Mesur Amgylchedd y DU yn glynu wrth y meini prawf hyn naill ai: • Byddai cynnig deddfwriaethol Llywodraeth y DU hefyd yn briodol ar gyfer amgylchiadau Cymru ond nid oes amser ar gael i gyflwyno darpariaethau tebyg yn y Cynulliad; • Hefyd, mae'r cysylltiadau agos rhwng y systemau gweinyddol perthnasol yng Nghymru a Lloegr yn golygu mai'r ffordd fwyaf effeithiol a phriodol o weithredu yw bwrw ymlaen â darpariaethau'r Bil ar gyfer y ddwy wlad ar yr un pryd yn yr un offeryn deddfwriaethol. **Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.
Argymhelliad 6 Dylai'r Gweinidog egluro pam na chafodd Bil Amgylcheddol ei flaenoriaethu yn unrhyw un o raglenni deddfwriaethol blynyddol Llywodraeth Cymru i gynnwys: ✦ llywodraethu amgylcheddol, gan gynnwys corff priodol i Gymru, sy'n deillio o ymadawiad y DU o'r UE; ✦ polisïau amgylcheddol eraill nad ydynt yn gysylltiedig â Brexit sydd bellach yn ymddangos ym Mesur y DU.	**Derbyn** Cyhoeddodd y Prif Weinidog newidiadau i raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer gweddill y Senedd hon ar 15 Gorffennaf. Myfyriodd ar y pwysau yr oedd diwedd y cyfnod pontio a Covid-19 wedi'u rhoi ar y rhaglen a bod angen penderfyniadau anodd i ddileu Biliau o'r rhaglen yn seiliedig ar flaenoriaethau. Yn anffodus, roedd hyn yn golygu na ellid cyflwyno deddfwriaeth ar egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu y tymor hwn, ond ailadroddodd y Prif Weinidog ei ymrwymiad i wneud hynny. Fel y nodais o'r blaen, mae gan Lywodraeth Cymru adnoddau cyfyngedig ar gyfer datblygu ei rhaglen ddeddfwriaethol. Mae mwy o gynigion bob amser yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol nag sydd â'r gallu i'w gyflawni. Mae penderfyniadau ynghylch pa gynigion sydd i'w datblygu ac a gynhwysir yn y pen draw mewn rhaglen ddeddfwriaethol yn cael eu gwneud gan y Cabinet, gan ystyried nifer o ffactorau megis blaenoriaethau'r Llywodraeth ar draws ei holl gyfrifoldebau, aeddfedrwydd cymharol datblygu cynnig, ei faint a'i amserlen debygol ar gyfer cyflawni a'r pwysau polisi a chyfreithiol eraill mewn portffolio a allai effeithio ar gyflawni. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddatblygu a pharatoi mesurau dros dro ar gyfer derbyn cwynion am lywodraethu amgylcheddol yng Nghymru a fyddai'n dod i rym erbyn diwedd y cyfnod pontio ar gyfer gadael yr UE ar 31 Rhagfyr 2020.

	O ran egwyddorion, er bod gennym, wrth gwrs, gyfres o egwyddorion amgylcheddol yn ein Deddf yr Amgylchedd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo eisoes i barhau i gymhwyso pedair egwyddor amgylcheddol yr UE wrth lunio polisïau hyd nes y byddwn yn eu cynnwys mewn deddfwriaeth. **Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.
Argymhelliad 7 Dylai'r Gweinidog gadarnhau mai polisi Llywodraeth Cymru o hyd yw creu corff llywodraethu amgylcheddol i Gymru gan ddefnyddio deddfwriaeth sylfaenol.	**Derbyn** Cyhoeddodd y Prif Weinidog newidiadau i raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer gweddill y Senedd hon ar 15 Gorffennaf. Myfyriodd ar y pwysau yr oedd diwedd y cyfnod pontio a Covid-19 wedi'u rhoi ar y rhaglen ac roedd angen penderfyniadau anodd i ddileu Biliau o'r rhaglen yn seiliedig ar flaenoriaethau. Yn anffodus, roedd hyn yn golygu na ellid cyflwyno deddfwriaeth ar egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu y tymor hwn, ond ailadroddodd y Prif Weinidog ei ymrwymiad i wneud hynny. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddatblygu a pharatoi mesurau dros dro ar gyfer derbyn cwynion am lywodraethu amgylcheddol yng Nghymru a fyddai'n dod i rym erbyn diwedd y cyfnod pontio ar gyfer gadael yr UE ar 31 Rhagfyr 2020. O ran egwyddorion, er bod gennym, wrth gwrs, gyfres o egwyddorion amgylcheddol yn ein Deddf yr Amgylchedd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo eisoes i barhau i gymhwyso pedair egwyddor amgylcheddol yr UE wrth lunio polisïau hyd nes y byddwn yn eu cynnwys mewn deddfwriaeth. **Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.
Argymhelliad 8. Dylai'r Gweinidog gadarnhau y bydd deddfwriaeth sylfaenol i greu corff llywodraethu amgylcheddol i Gymru yn cynnwys adrannau annibynnol, yn unol â'i hymrwymiad i ddeddfwriaeth gyfunol, ac na fydd yn diwygio Bil y DU fel ffordd o gyflawni amcanion	**Derbyn** Y bwriad yw i Gymru gael ei Bil Egwyddorion Amgylcheddol a Llywodraethu ei hun yng Nghymru, a bydd ei darpariaethau'n darparu'r fframwaith a'r mecanwaith angenrheidiol ar gyfer corff llywodraethu amgylcheddol i Gymru, ynghyd â deddfu i ymgorffori pedair egwyddor amgylcheddol yr UE yng nghyfraith Cymru. Yn ystod ein cam presennol o ddatblygu polisi, nid ydym yn rhagweld diwygio Bil y DU fel ffordd o gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru.

polisi Llywodraeth Cymru.	Fodd bynnag, efallai y bydd angen gwneud diwygiadau canlyniadol i Fil y DU unwaith y bydd Bil Cymreig ar waith i sicrhau bod y ddau ddarn o ddeddfwriaeth yn gallu gweithredu'n esmwyth ochr yn ochr â'i gilydd. **Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.
Argymhelliad 9: Dylai'r Gweinidog egluro sut y bydd yn ceisio gwelliannau i Fil y DU i adlewyrchu canlyniad ymarferion ymgynghori perthnasol Llywodraeth Cymru sydd wedi cau ar ôl i Fil y DU gael ei gyflwyno i Senedd y DU.	**Derbyn** Os bydd canlyniad ymgynghoriadau diweddar yn arwain at angen newid y darpariaethau arfaethedig yn y Bil, byddaf yn gofyn i Lywodraeth y DU geisio'r gwelliannau angenrheidiol ar ein rhan. **Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.
Argymhelliad 10. Dylai'r Gweinidog ofyn am welliant i Fil y DU fel bod y cymalau a gwmpesir gan argymhelliad 4 yn ddarostyngedig i gymal machlud sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddod i ben ar ôl dyddiad penodedig.	**Gwrthod** Cyhoeddodd y Prif Weinidog newidiadau i raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth ar gyfer gweddill y Senedd hon ar 15 Gorffennaf. Myfyriodd ar y pwysau yr oedd diwedd y cyfnod pontio a Covid-19 wedi'u rhoi ar y rhaglen ac roedd angen penderfyniadau anodd i ddileu Biliau o'r rhaglen yn seiliedig ar flaenoriaethau. Fel arfer, rydym yn ystyried cymalau machlud yn neddfwriaeth y DU lle mae amserlen glir ar gyfer disodli darpariaethau Cymreig ac oherwydd nad oes gennym Fil Amgylchedd wedi'i drefnu yn y tymor hwn, nid oes gennym ddigon o sicrwydd.
Argymhelliad 11 Dylai'r Gweinidog egluro: ✦ pam mae angen cydsyniad ar gyfer cymalau 21, 45, 46, 78, 90, 100, 115, 122 a 124 o Fil y DU i'r graddau y maent yn ymwneud â'r darpariaethau cyffredinol yn Rhan 8 o Fil y DU; ✦ pam nad yw gwybodaeth a gynhwysir yn ei llythyr dyddiedig 14 Mai 2020 mewn ymateb i C11 wedi'i chynnwys yn y	**Derbyn** Cafodd y rhestr a ddarparwyd mewn ymateb i C11 ei chynnwys mewn camgymeriad. Mae natur y darpariaethau cyffredinol yn golygu na allwn adrodd yn bendant beth fydd eu cais penodol ym mhob achos, ac felly pa gysylltiad penodol a allai fod ganddynt gyda 'darpariaeth berthnasol'. Fodd bynnag, i'r graddau y gellir arfer neu ddeall y darpariaethau cyffredinol yng nghymalau 126 i 133 naill ai'n ymwneud neu fel arall mewn modd sy'n brathu ar ddarpariaeth berthnasol mewn mannau eraill yn y Bil (h.y. ar gymalau 19, 43, 47 i 52, 55, 57, 60 i 61, 63, 65 i 66 i 67, 69 i 70, 75 i 77, 79, 81 i 82, 85, 87 i 89 a 125), credwn eu bod yn 'ddarpariaeth berthnasol' at ddibenion Rheol Sefydlog 29 yn eu rhinwedd eu hunain.

Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gyda sylwebaeth briodol ac yn unol â Rheol Sefydlog 29; ✦ pam nad yw ei hymateb i C11 yn cyfeirio at gymalau 55, 57, 60, 61, 65, 66, 67, 75-77, 79, 81, 82, 85 ac 87-89.	**Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.
Argymhelliad 12: Dylai'r Gweinidog ddarparu gwybodaeth, naill ai mewn dogfen atodol neu mewn unrhyw Femorandwm atodol, yn cyfiawnhau pam ei bod yn briodol cymryd pob un o'r pwerau dirprwyedig ar gyfer Gweinidogion Cymru sydd wedi'u cynnwys ym Mesur y DU, a'r dewis o weithdrefn ar gyfer pob pŵer.	**Derbyn** Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn Atodiad A i'r Memorandwm yn bodloni gofynion SO29.3: “Rhaid i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol" SO29.3(iv):"pan fo'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth berthnasol sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru, nodi gweithdrefn y Senedd (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud iddi wrth arfer y pŵer i fod yn ddarostyngedig iddi;” Ers hynny, rwyf wedi darparu'r wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani i'r Pwyllgor yn fy llythyr dyddiedig 14 Mai. Er mwyn sicrhau mynediad rhwydd at yr holl wybodaeth, byddaf yn cyfarwyddo fy swyddogion i goladu'r wybodaeth mewn un ddogfen a chyhoeddi hyn ochr yn ochr â'r Memorandwm ar ôl toriad yr haf. **Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn
Argymhelliad 13. Dylai'r Gweinidog gadarnhau ei bod wedi gofyn i'r weithdrefn gael ei defnyddio ar gyfer pob pŵer dirprwyedig ar gyfer Gweinidogion Cymru sydd ym Mesur y DU a bod ei chais wedi'i ganiatáu ym mhob achos.	**Derbyn** Ar gyfer pob pŵer dirprwyedig i Weinidogion Cymru, cytunais ar y weithdrefn i'w defnyddio. **Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn
Argymhelliad 14. Dylai'r Gweinidog egluro pam yr oedd	**Derbyn** Fel y nodwyd yn Argymhelliad 3, ceisiodd Llywodraeth Cymru gynnwys pwerau drwy Fil y DU gan mai hwn oedd y cyfrwng

angen cynnwys pwerau gwneud rheoliadau ym Mil y DU o dan gymal 52 ac Atodlen 9 yn hytrach nag mewn Bil Cymreig yn y dyfodol sy'n ymdrin â pholisi ailgylchu fel rhan o'i agenda amgylcheddol a chynaliadwyedd ehangach.	mwyaf addas ar y pryd, i'n galluogi i fodloni rhwymedigaethau posibl Cyfarwyddeb yr UE. Er bod telerau ymadael y DU yn golygu ar hyn o bryd nad oes rheidrwydd cyfreithiol i drosi'r Gyfarwyddeb na bodloni'r amserlenni gofynnol, mae Llywodraeth Cymru yn dal i geisio cyd-fynd â'i huchelgeisiau mewn perthynas â phlastig untro. **Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.
Argymhelliad 15 Dylai'r Gweinidog egluro pam ei bod yn cymryd pwerau gwneud rheoliadau ym Mesur y DU heb syniad clir pryd y mae'n bwriadu eu defnyddio ac felly pam na ellid eu cynnwys mewn Bil Amgylcheddol i Gymru yn y Chweched Senedd.	**Derbyn.** Cyfeiriaf y Pwyllgor at fy ymatebion i argymhelliad 3 a 5. **Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.
Argymhelliad 16 Dylai'r Gweinidog ofyn am welliant i Fil y DU sy'n cymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol i wneud rheoliadau o dan adran 33ZB(10A) a 34ZB(8A) o *Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990*, fel y'u mewnosodwyd gan gymal 66 o Fil y DU.	**Gwrthod** O ystyried bod hwn yn bŵer diweddaru (rhoi un ffigur ar gyfer un arall), bernir bod y weithdrefn negyddol yn briodol o ystyried ei chwmpas cyfyngedig. Mae'r broses o ddiwygio'r symiau cosb yn gofyn am is-ddeddfwriaeth ac maent yn destun asesiad priodol o'r effeithiau er mwyn sicrhau bod yr hysbysiadau cosb benodedig yn cael eu gosod ar lefel addas.
Argymhelliad 17 Dylai'r Gweinidog egluro: ▪ pam ei bod mor bwysig cynnwys cymal 70 fel y mae'n berthnasol i Gymru ym Mil y DU, yn hytrach nag yn y Bil Aer Glân sydd i'w gyflwyno yn y Chweched Senedd;	**Derbyn** O ran ansawdd aer, yn benodol cymal 70 ac Atodlen 12 i Fil Amgylchedd y DU, y rhesymeg dros ddefnyddio Bil Amgylchedd y DU yw sicrhau manteision i weithgynhyrchu a defnyddwyr cyn gynted â phosibl. Bydd busnesau a /gweithgynhyrchwyr yn elwa wrth i'r oedi rhwng cael argymhelliad gan yr arbenigwyr technegol sy'n argymell cynhyrchion i'w defnyddio a rhoi cynnyrch ar y farchnad gael ei leihau; bydd mabwysiadu rhestri cyhoeddedig yn lleihau'r lwfans ansicrwydd wrth gofnodi a diweddaru'r rhestri o gynhyrchion y gellir eu defnyddio'n gyfreithlon; a bydd proses symlach, fwy effeithiol yn cynyddu dewis y defnyddiwr wrth i fwy o gynhyrchion ddod i'r farchnad yn

▪ heb y pwerau hyn, pan fyddai Gweinidogion Cymru yn diwygio rheoliadau sy'n ymwneud ag ardaloedd rheoli mwg nesaf, gan ddefnyddio eu pwerau o dan Ddeddf *Aer Glân 1993*.	gynt. Yn ogystal â manteision economaidd i weithgynhyrchwyr a mwy o ddewid i'r cyhoedd, bydd manteision amgylcheddol hefyd gan y bydd gwella sut y gweithredir y gyfundrefn rheoli mwg yng Nghymru yn ei gwneud yn haws i nodi cynhyrchion y gellir eu defnyddio'n gyfreithlon mewn ardaloedd rheoli mwg. Barnwyd mai Mesur Amgylchedd y DU oedd y cyfrwng cyflenwi a allai sicrhau'r gwelliant hwn i weithrediad y gyfundrefn rheoli mwg yng Nghymru yn gynt nag unrhyw fecanwaith arall. Unwaith y bydd cymal 70 wedi ei ddeddfu, diddymir pŵer Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth i awdurdodi tanwyddau cymeradwy o dan adran 20(6) o Ddeddf Aer Glân 1993, yn ogystal â phŵer Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth i eithrio cyfarpar/lleoedd tân o dan adran 21(5) o'r un Ddeddf. Bydd y ddyletswydd ar Weinidogion Cymru (yn wahanol i bŵer) a gyflwynir drwy ddeddfu'r Bil i greu rhestrau cyhoeddedig yn swyddogaeth weinyddol yn hytrach na swyddogaeth gwneud rheoliadau/deddfwriaethol. **Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.
Argymhelliad 18. Dylai'r Gweinidog egluro'n glir pam ei bod yn fwy priodol disodli adrannau presennol Deddf y *Diwydiant Dŵr 1991* â phwerau gwneud rheoliadau o dan y Ddeddf honno.	**Derbyn** Mae cymal 75(3) i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru yn diddymu adran 37B a 37C o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. Mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â Chynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr a Chynlluniau Sychder. Mae adran 37B yn ymdrin â chyhoeddi'r cynlluniau hynny a sylwadau arnynt. Mae hyn yn cynnwys pwerau eang i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau a Chyfarwyddiadau mewn perthynas â chynlluniau o'r fath. Yna, mae adran 37C yn ymdrin â darpariaethau gwybodaeth rhwng cyflenwyr dŵr trwyddedig i ddarparu'r ymgymerwyr dŵr. Mae adran 37B yn cynnwys gofyniad i gwmnïau dŵr ymgynghori â Gweinidogion Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru cyn paratoi Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr drafft ar Gyfer Sychder. Fodd bynnag, mae gofyniad i ymgynghori ar gynlluniau drafft wedi'i gynnwys yn Rheoliadau Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr 2007 a Rheoliadau Cynllun Sychder 2005 ac felly mae'r gofyniad i ymgynghori yn dal i fodoli er gwaethaf diddymu adran 37B o'r Ddeddf. Mae cymal 75(7) o Fil yr Amgylchedd yn mewnosod Adran 39F newydd yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991. Nid yw hyn yn rhoi pwerau newydd i Weinidogion – yn ei hanfod mae'n ailddeddfu'r rhan fwyaf o'r pwerau sydd wedi'u cynnwys ar hyn o bryd yn Adran 37B i wneud rheoliadau a chyfarwyddiadau ac, yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol i ymatebion i'r ymgynghoriad ar gynlluniau gael eu hanfon at Weinidogion Cymru, mae'n galluogi'r rheoliadau i ddarparu ar gyfer system arall, er enghraifft i ymateb yn uniongyrchol i'r cwmni dŵr sy'n cynnal yr ymgynghoriad.

	Goblygiadau Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.
Argymhelliad 19 Dylai'r Gweinidog egluro'r rhesymeg dros gymryd y pwerau cyfarwyddo yn adrannau arfaethedig 39G(1) a 94C(8) o *Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991* (a fewnosodwyd gan gymalau 75 a 76 o Fil y DU) ac egluro sut y dylid eu defnyddio.	**Derbyn** Mae Adran 39G(1) arfaethedig yn dweud y caiff rheoliadau a wneir o dan adran 39F roi pŵer i'r Gweinidog wneud darpariaeth drwy gyfarwyddiadau. Nid yw hyn yn rhoi pwerau i'r Gweinidog wneud Cyfarwyddiadau – mae'n galluogi rheoliadau i roi pwerau cyfarwyddo i'r Gweinidog. Mae'r pŵer i alluogi'r Gweinidog i roi Cyfarwyddiadau yn gul ac yn benodol ac mae wedi'i gyfyngu i'r weithdrefn a'r manylion ar gyfer paratoi a chyhoeddi cynlluniau rheoli adnoddau dŵr neu sychder. Maent i raddau helaeth yn ailadrodd y pwerau Cyfarwyddo a roddir i'r Gweinidog ar hyn o bryd gan adran 37 y mae'r Bil yn eu diddymu ac nad ydynt yn darparu pwerau ychwanegol. Un enghraifft yw Cyfarwyddiadau Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (Cymru) 2016 sy'n cyfarwyddo'r cwmnïau dŵr i baratoi WRMP ar gyfer 2020 Bwriedir i'r weithdrefn ar gyfer paratoi Cynlluniau Draenio a Rheoli Gwastraff (DWMP) adlewyrchu'n fras y broses a gymhwysir at gynlluniau rheoli adnoddau dŵr a sychder, felly mae adran 94C(8) sy'n berthnasol i DWMP yn ail-adrodd adran adran 39G(1) sy'n berthnasol i gynlluniau eraill. Bydd unrhyw ddefnydd o'r pwerau Cyfarwyddo yn cael ei ragnodi i'r Rheoliadau a wneir o dan y darpariaethau hyn, a byddant yn rhan o'r fframwaith rheoleiddio. Ymgynghorir ar y rhain cyn iddynt gael eu gwneud. Defnyddir y pwerau Cyfarwyddo ar gyfer pwyntiau proses neu weithdrefn manwl fel ar hyn o bryd. **Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.
Argymhelliad 20 Dylai'r Gweinidog egluro: ▪ pam nad yw wedi trafod cymal 81 gyda Gweinidogion y DU o gofio ei fod yn bŵer cydamserol a mwy sy'n effeithio ar Gymru; a ▪ pam mae pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan y cymal hwn yn fwy cyfyngedig yn yr	**Derbyn** Mae ymgysylltu ar lefel Swyddogol wedi bod yn ddigon i sicrhau cytundeb ar y cymalau hyn. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a Defra wedi trafod Cymal 82 annibynnol a Chymal 81 ar yr un pryd. Y rhesymeg dros raddau tiriogaethol Cymal 81 oedd, pe bai'r gweinyddiaethau datganoledig yn cydsynio, y gellid gosod y sylweddau a'r safonau i'w hystyried wrth asesu statws cemegol dŵr wyneb neu ddŵr daear ar sail y DU i raddau Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r ardaloedd basn afon trawsffiniol â'r Alban. Byddai hyn yn sicrhau dau fantais; cael safonau unffurf ar draws y tiriogaethau hyn ac osgoi'r angen am sawl set o reoliadau.

Alban nag yng Nghymru.	Nid yw pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol yng Nghymal 81 yn fwy cyfyngedig yn yr Alban nag yng Nghymru. Mae is-adran (4) yn sefydlu mai dim ond gyda'u caniatâd y gall yr Ysgrifennydd Gwladol arfer y pwerau yn yr adran hon i wneud darpariaeth y gallai Gweinidogion Cymru neu DAERA ei gwneud o dan eu pwerau eu hunain yng nghymalau 82 ac 83 yn y drefn honno. Gan nad oes cymal annibynnol tebyg ar gyfer Gweinidogion yr Alban*, mae is-adran (5) yn sefydlu mecanwaith cydsyniad tebyg pe bai'r Ysgrifennydd Gwladol yn arfer y pwerau mewn rhan o ardaloedd basn afon trawsffiniol yn yr Alban sydd yn yr Alban. Mae hyn yn angenrheidiol gan fod is-adran (2), sy'n sefydlu'r ddeddfwriaeth ansawdd dŵr berthnasol, yn cynnwys Rheoliadau Dosbarth Basn Afon Solway Tweed a Northumbria (RBD). Rhanbarthau trawsffiniol yw'r rhain sy'n pontio'r ffin rhwng Lloegr a'r Alban. Nid oedd Gweinidogion yr Alban am gymryd pŵer annibynnol math cymal 82/83 ym Mil yr Amgylchedd gan fod y Rheoliadau ar gyfer ardal anffiniol yr Alban ('RBD yr Alban') wedi'u nodi yn neddfwriaeth sylfaenol yr Alban ac maent yn bwriadu creu pwerau eu hunain mewn Bil yn yr Alban. **Goblygiadau** Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i dderbyn yr argymhelliad hwn.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon